# Strategaeth Buddsoddi De-orllewin Cymru

## South West Wales Investment Strategy

2026–2031









Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol ........ 1**

**1 Cyflwyniad ........ 2**

1.1 Pwrpas y strategaeth hon ........ 3

1.2 Dull a methodoleg ........ 3

1.3 Strwythur y ddogfen ........ 4

**2 Blaenoriaethau Strategol ........ 5**

2.1 Symud o strategaeth i gyflawni ........ 5

2.2 Gweledigaeth Buddsoddiad: Pweru Cymru – Gorffennol, Presennol, Dyfodol ........ 6

2.3 Egwyddorion Arweiniol ........ 7

**3 Buddsoddi yn Ne-orllewin Cymru ........ 9**

3.1 Sylfeini Economaidd ar gyfer Buddsoddi ........ 9

3.2 Cryfderau ac Asedau Rhanbarthol ........ 13

**4 Cyfleoedd Buddsoddi ........ 17**

4.1 Crynodeb o'r Biblinell Brosiectau ........ 17

4.2 Mathau o Fuddsoddi ........ 19

**5 Symud Prosiectau Ymlaen ........ 23**

5.1 Crynodeb o'r broses ........ 23

**6 Cronfa Buddsoddi Ranbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru ........ 28**

6.1 Tystioliaeth ac angen ........ 29

6.2 Dull buddsoddi ac ariannu ........ 29

**7 Llywodraethu a Rheoli Rhaglen ........ 33**

7.1 Fframwaith Llywodraethu ........ 33

7.2 Mesur a Monitro ein Llwyddiant ........ 35

**8 Camau nesaf ........ 38**

# Crynodeb Gweithredol

# Crynodeb Gweithredol

Mae De-orllewin Cymru yn ardal o botensial enfawr, gyda'r gallu i gyflawni'n gyflym a'r asedau strategol i gystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Gyda'i seilwaith cryf o ffyrdd, rheilffyrdd a phorthladdoedd, ei phrif byrth yn Aberdaugleddau, Port Talbot, Abertawe, Abergwaun a Doc Penfro, a'i agosrwydd at feysydd awyr Caerdydd a Bryste, mae'r rhanbarth mewn sefyllfa gref i ddenu buddsoddiad sy'n gredadwy'n fasnachol ac yn cael ei arwain gan genhadaeth.

Wedi'i gomisiynu gan Gydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, mae Strategaeth Buddsoddi De-orllewin Cymru 2026–2031 yn darparu fframwaith gweithredadwy i drosi'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn biblinell glir sy'n canolbwyntio ar fuddsoddwyr ac yn ddull cyflawni pendant. Wedi'i ddatblygu drwy "sbrint" dan arweiniad tystiolaeth gyda chynnwys eang gan rhanddeiliaid, mae'r Strategaeth yn ymateb i amodau polisi a marchnad sy'n newid yn gyflym, ac i alwad glir gan Fwrdd Cynghori'r Sector Preifat i gryfhau cynnig buddsoddi'r rhanbarth.

Gweledigaeth fuddsoddi'r Strategaeth yw "Pweru Cymru: Gorffennol, Presennol, Dyfodol", gan adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol y rhanbarth a'i don nesaf o dwf gwyrdd a chynhwysol. Mae'r cyfle yn sylweddol: mae De-orllewin Cymru eisoes yn cynnal economi amrywiol o 28,080 o fusnesau, yn creu mentrau cryf, ac mae catalyddion mawr gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Porthladd Rhydd Celtaidd. Mae sectorau blaenoriaeth yn cynnwys ynni a sero net (gyda sylfaen sylweddol o weithgarwch a rôl gynyddol yn system ynni glân y DU), gweithgynhyrchu a deunyddiau datblygedig (wedi'u hangori gan drawsnewidiad Tata Steel a gallu Diwydiant 4.0), iechyd a gwyddorau bywyd (wedi'u tanategu gan asedau prifysgol, y GIG a champysau fel Pentre Awel), a'r economi profiad (twristiaeth, diwylliant a lleoliad).

Mae galwad ranbarthol am brosiectau yn 2025 wedi adnewyddu piblinell o dros 45 o gynigion, sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli fwy na £6 biliwn o gyfleoedd buddsoddi ar draws ynni glân, arloesedd, sgiliau, adfywio a chysylltedd. I ganolbwyntio ymdrechion a chynyddu effaith i'r eithaf, mae'r Strategaeth yn nodi egwyddorion arweiniol a fframwaith blaenoriaethu eglur sy'n ymdrin ag aliniad strategol, cyflawnadwyedd, effaith, hyfywedd ariannol, cynhwysiant a chynaliadwyedd.

Er mwyn symud o gyllido tameidiog i gyflawni parhaus, mae'r Strategaeth yn cynnig Cronfa Buddsoddi De-orllewin Cymru, o bosibl hyd at £1.5 biliwn dros 10 mlynedd, i bontio bylchau hyfywedd, lleihau risg prosiectau cymhleth, cefnogi adfer tir, ac i ddenu cyllid preifat, sefydliadol ac effaith. Bydd llywodraethu clir, rheoli'r biblinell a monitro perfformiad yn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn atebol, yn gyson ac wedi'u cynllunio i ddarparu gwerth hirdymor i gymunedau a buddsoddwyr fel ei gilydd.

# 1 Cyflwyniad

Mae De-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn rhanbarth deinamig sydd wedi'i gysylltu'n effeithiol, gyda chysylltiadau ffyrdd, rheilffyrdd a môr cryf i brif ddinasoedd y DU a marchnadoedd rhyngwladol. Gyda thirwedd naturiol drawiadol, treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, a sylfaen fusnes llewyrchus, mae'n cynnig amgylchedd deniadol ar gyfer byw a buddsoddi fel ei gilydd. Mae ffocws y rhanbarth ar arloesedd a thwf cynaliadwy yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer buddsoddi mewnol.

Mae De-orllewin Cymru mewn safle strategol gyda chysylltedd rhagorol â phrif ddinasoedd y DU a marchnadoedd rhyngwladol, diolch i'w seilwaith trafnidiaeth cadarn, gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd, rheilffyrdd a môr. Mae'r rhanbarth yn ymfalchïo mewn tirwedd naturiol hardd, o arfordir prydferth Penrhyn Gŵyr i fryniau tonnog Bannau Brycheiniog, gan ei wneud yn gyrchfan ddeniadol ar gyfer busnes a hamdden fel ei gilydd. Gyda threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, cymuned fusnes llewyrchus, ac ymrwymiad i arloesedd a thwf cynaliadwy, mae rhanbarth De-orllewin Cymru yn cynnig cyfleoedd heb eu hail ar gyfer buddsoddiad mewnol.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (CJC) wedi comisiynu datblygiad Strategaeth Buddsoddi Ranbarthol weithredadwy ar gyfer De-orllewin Cymru. Mae'r Strategaeth hon wedi'i chynllunio i helpu'r rhanbarth i aros yn gystadleuol ac yn hyblyg mewn ymateb i ddatblygiadau gwleidyddol ac economaidd sy'n symud yn gyflym ledled Cymru a'r DU ehangach.

Gan adlewyrchu ymrwymiad y CJC i ddull sy'n cael ei lywio gan ddata, mae AMION Consulting wedi cynnal ymarfer casglu tystiolaeth helaeth i sefydlu sail ddadansoddol gadarn ar gyfer y Strategaeth. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwaith hwnnw, gan gynnwys cyfres o ymarferion modelu economaidd pwrpasol sydd wedi llywio blaenoriaethau buddsoddi a chynnig y rhanbarth.

*"Mae buddsoddi yn Ne-orllewin Cymru yn golygu buddsoddi mewn rhanbarth gyda'r cydbwysedd delfrydol o raddfa, uchelgais a chyfle. Mae'r ardal yn ddigon cryno i alluogi partneriaethau cryf a chyflawni cyflym, ond yn ddigon arwyddocaol yn strategol i gynhyrchu enillion ar fuddsoddiad sy'n arwain y diwydiant. Gyda'i chyfuniad o ddinasoedd a threfi bywiog, diwydiannau arloesol, ac asedau naturiol o'r radd flaenaf, mae De-orllewin Cymru yn cynnig amgylchedd unigryw lle gall busnesau lwyddo."*

Mae'r Strategaeth hefyd yn ymateb yn uniongyrchol i gais gan Fwrdd Cynghori'r Sector Preifat y CJC, sydd wedi pwysleisio'r angen i osod De-orllewin Cymru'n fwy amlwg o ran buddsoddi. Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ehangach y CJC a'i Gynllun Corfforaethol, sy'n cynnwys cryfhau gallu De-orllewin Cymru i ddenu, manteisio ar a defnyddio buddsoddiad yn fwy effeithiol, tra hefyd yn gwella gallu'r rhanbarth i reoli a chyfeirio ei gyllid ei hun drwy fecanweithiau datganoledig.

Mae'r Strategaeth yn cael ei chefnogi gan allbynnau ategol:

- **Prosbectws Buddsoddi:** Dogfen gryno sy'n wynebu ymlaen ac wedi'i chynllunio i ymgysylltu â buddsoddwyr allanol, gan grynhoi cynnig y rhanbarth, y cyfleoedd, a'r camau nesaf.

- **Sail Dystiolaeth:** A comprehensive and reliable foundation to inform decision-making, identify competitive strengths and highlight areas of opportunity. Sylfaen gynhwysfawr a dibynadwy i lywio penderfyniadau, nodi cryfderau cystadleuol, ac amlygu meysydd o gyfle.

## 1.1 Pwrpas y strategaeth hon

Pwrpas cyffredinol y Strategaeth Buddsoddi yw cryfhau cystadleurwydd y rhanbarth, gwella cydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a sicrhau bod De-orllewin Cymru yn cyflwyno cynnig deniadol, cydlynol ac uchelgeisiol i fuddsoddwyr.

Mae'r Strategaeth Buddsoddi hwn yn nodi'r cyfeiriad strategol, y blaenoriaethau a'r ymyriadau sydd eu hangen i ddatgloi twf ar draws De-orllewin Cymru. Mae'n diffinio sut y gall y rhanbarth ddenu, sicrhau a defnyddio buddsoddiad i gynyddu'r effaith economaidd i'r eithaf, cyflymu arloesedd a chefnogi datblygiad cynhwysol a chynaliadwy.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd yn agos ag amcanion y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol, gan ddarparu fframwaith cyflawni buddsoddi clir sy'n trosi uchelgeisiau'r Cynllun yn gynigion wedi'u targedu, gweithredadwy ac sy'n canolbwyntio ar fuddsoddwyr.

## 1.2 Dull a methodoleg

Mae datblygiad y Strategaeth wedi dilyn "sbrint" cydweithredol, gan sicrhau momentwm wrth gynnal trylwyredd dadansoddol a mewnbwn eang gan randdeiliaid. Mae elfennau allweddol y fethodoleg yn cynnwys:

- "Sbrint" chwe wythnos i lunio'r Prosbectws Buddsoddi a'r Strategaeth yn gyflym.
- Dwy weminar a fynychwyd gan dros 100 o gyfranogwyr, gan gasglu mewnwelediadau o'r diwydiant, y sector cyhoeddus a'r byd academaidd.
- Dau weithdy wyneb yn wyneb a oedd yn cynnwys dros 60 o randdeiliaid, gan archwilio blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd.
- Mwy na 20 o gyfweliadau manwl gyda phartneriaid a buddsoddwyr allweddol yn Ne-orllewin Cymru a ledled y wlad, ynghyd ag ymgysylltu rheolaidd â grŵp llywio'r prosiect.
- Galwad ranbarthol am brosiectau, gan gasglu syniadau a chynigion y gellir buddsoddi ynddynt o bob rhan o Dde-orllewin Cymru.
- Cyd-fynd â cherrig milltir allweddol, gan gynnwys Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru ar 1 Rhagfyr.

Mae'r dull cydweithredol hwn wedi sicrhau bod y Strategaeth sy'n deillio ohono wedi'i seilio ar dystiolaeth, wedi'i lywio gan fewnwelediad lleol, ac yn canolbwyntio ar gyflawni ymarferol.

## 1.3 Strwythur y ddogfen

**Mae strwythur y strategaeth wedi'i amlinellu isod:**

- **Mae Adran 1** yn cyflwyno'r Strategaeth. Mae'n nodi ei bwrpas a'r dull a ddefnyddiwyd i'w ddatblygu.
- **Mae Adran 2** yn nodi'r blaenoriaethau strategol. Mae'n diffinio'r weledigaeth buddsoddi a'r ffocws ar symud o strategaeth i gyflawni, ac yn sefydlu'r egwyddorion arweiniol ar gyfer buddsoddi a gwneud penderfyniadau.
- **Mae Adran 3** yn cyflwyno'r achos dros fuddsoddi yn Ne-orllewin Cymru. Mae'n disgrifio sylfeini economaidd, cryfderau ac asedau'r rhanbarth.
- **Mae Adran 4** yn disgrifio'r cyfleoedd buddsoddi a'r biblinell brosiectau. Mae'n amlinellu'r amgylchedd buddsoddi, modelau cyllido ac ariannu, a'r mathau o fuddsoddi.
- **Mae Adran 5** yn nodi sut y bydd cyfleoedd buddsoddi yn cael eu datblygu, eu hasesu a'u symud ymlaen.
- **Mae Adran 6** yn amlinellu pam fod cronfa fuddsoddi ar gyfer De-orllewin Cymru yn gam nesaf rhesymegol.
- **Mae Adran 7** yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu a rheoli rhaglenni. Mae'n nodi'r dulliau arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau a monitro.
- **Mae Adran 8** yn nodi'r camau nesaf ar gyfer gweithredu.

# 2 Blaenoriaethau Strategol

Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni yn uniongyrchol drwy drosi ei genadaethau a'i flaenoriaethau yn set benodol o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt, gyda llwybrau clir tuag at gyflawni. Mae'n darparu'r fframwaith buddsoddi, y biblinell brosiectau a'r naratif i fuddsoddwyr sydd ei angen i gyflymu cynnydd tuag at uchelgeisiau hirdymor y Cynllun Cyflawni.

## 2.1 Symud o strategaeth i gyflawni

Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi 'map llwybr' uchelgeisiol ar gyfer datblygu economi'r rhanbarth dros y deng mlynedd nesaf, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth ac amlinellu sut y gall busnesau, y llywodraeth, addysg, sefydliadau gwirfoddol/cymunedol, mentrau cymdeithasol a phartneriaid eraill gydweithio i'w gwireddu.

1. **Cenhadaeth Un: Pweru Trawsnewidiad Ynni'r DU -** Mae De-orllewin Cymru mewn sefyllfa unigryw i fod yn ganolbwynt i ymdrech y DU i sicrhau diogelwch ynni a thrawsnewid i garbon isel. Man lle mae ynni wedi diffinio'r dirwedd ers amser maith, a lle mae'r genhedlaeth nesaf o systemau ynni glân, hyblyg a chydnerth yn cael eu hadeiladu.
2. **Cenhadaeth Dau: Adeiladu Sylfaen Busnes Cref a Chadarn -** Mae ecosystem ddiwydiannol a digidol y rhanbarth yn esblygu'n gyflym; o ddeunyddiau uwch i weithgynhyrchu manwl, arloesedd data, a thechnoleg iechyd.
3. **Cenhadaeth Tri: Buddsoddi ym Mhrofiad De-orllewin Cymru -** O Benrhyn Gŵyr i arfordir Sir Benfro, mae'r rhanbarth hwn yn cyfuno harddwch naturiol â chymunedau bywiog ac economi greadigol sy'n tyfu. Mae ei "*gynnig profiadol*" — diwylliant, tirwedd, bwyd, ffordd o fyw — yn ganolog i'w apêl i fuddsoddwyr a thalent fel ei gilydd.

***Ffigur 1: Trosolwg o'r Cynllun Cyflawni***



Mae buddsoddiad wedi'i dargedu yn hanfodol i droi cenadaethau'r Cynllun Cyflawni yn ganlyniadau ymarferol. Mae pob cenhadaeth yn gofyn am y cyfalaf i ddatgloi prosiectau mawr a'r refeniw sydd ei angen i adeiladu gallu, sgiliau ac arloesedd ar draws y rhanbarth. Mae buddsoddiad yn cyflymu cyflwyno seilwaith trawsnewid ynni, yn galluogi busnesau i dyfu ac i fabwysiadu technolegau newydd, ac yn gwella'r asedau diwylliannol, amgylcheddol a seiliedig ar le sy'n sail i economi brofiad y rhanbarth.

Drwy gyfeirio adnoddau tuag at brosiectau sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau hirdymor y Cynllun Cyflawni, gall De-orllewin Cymru greu'r amodau ar gyfer twf parhaus, cryfhau ei chydnerthwch a'i chystadleurwydd, a sicrhau bod cyfleoedd trawsnewidiol yn dod â budd i gymunedau ar draws y rhanbarth.

## 2.2 Gweledigaeth Buddsoddiad: Pweru Cymru – Gorffennol, Presennol, Dyfodol

Am genedlaethau, mae De-orllewin Cymru wedi pweru'r genedl. Adeiladodd ei glo a'i ddur gryfder diwydiannol y DU; cynhaliodd ei thir ffrwythlon a'i harfordir gymunedau a bwydo'r wlad. Heddiw, mae'r un ysbryd o wydnwch ac arloesedd yn sbarduno cyfnod newydd o ffyniant - un sy'n wyrdd, yn gynhwysol, ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

Mae De-orllewin Cymru yn ystafell injan i Cymru ac yn gatalydd ar gyfer twf y DU. Ein gweledigaeth yw harneisio asedau unigryw'r rhanbarth, gan gynnwys ei helaethrwydd o adnoddau naturiol, i bweru'r trawsnewid i economi gynaliadwy, gan greu cyfleoedd sy'n dod â budd i bobl, busnesau a'r blaned. Mae hyn yn golygu:

**Cartrefi a Diwydiant: Ynni, Sero Net a'r Economi Werdd**

O wynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd i arloesedd hydrogen a chartrefi fel gorsafoedd pŵer, bydd De-orllewin Cymru yn pweru dyfodol ynni glân y DU. Gyda dros 70,000 o swyddi yn gysylltiedig â gweithgareddau sero net a chyfraniad gwerth ychwanegol gros o £2.7 biliwn, bydd y rhanbarth yn angori diogelwch ynni a datgarboneiddio.

**Pweru Cynhyrchiad: Gweithgynhyrchu, Technoleg a Deunyddiau**

Mae sylfeini economi fodern yn dechrau yma. Mae De-orllewin Cymru yn pweru diwydiant y DU drwy ddur gwyrdd, cyfansoddion uwch, a gweithgynhyrchu clyfar. Wedi'i gefnogi gan drawsnewidiad £1.25 biliwn Tata Steel ac ymchwil o'r radd flaenaf, mae'r sector hwn yn cyflogi 23,000 o bobl ac yn cynhyrchu gwerth ychwanegol gros o £1.59 biliwn.

**Pweru Pobl: Iechyd a Gwyddorau Bywyd**

Mae iechyd da yn ganolog i rymuso pobl. Mae De-orllewin Cymru yn pweru lles drwy ofal iechyd blaengar, technoleg feddygol, ac arloesedd ym maes gwyddorau bywyd. Wedi'i hangori gan Sefydliad Gwyddor Bywyd Prifysgol Abertawe a Pentre Awel, mae'r sector hwn yn cyfuno 30,000 o swyddi, gwerth ychwanegol gros o £1.2 biliwn, a rhagoriaeth ymchwil o safon fyd-eang.

**Pweru Meddyliau ac Ysbrydion: Yr Economi 'Profiad'**

Ar draws yr ardal gyfan, mae asedau'r economi profiad, hamdden ac ymwelwyr yn pweru creadigrwydd, ymlacio ac adfywiad. Mae'r economi profiad yn ailwefru pobl ac yn denu talent,

gan gyflogi 40,000 ac yn cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros drwy ddiwylliant, twristiaeth a ffordd o fyw.

**Pweru Syniadau: Creadigol a Digidol**

Gyda Rhaglen Seilwaith Digidol gwerth £55 miliwn ac asedau fel Bay Studios, mae De-orllewin Cymru yn pweru economi greadigol y DU - ffilm, y cyfryngau a digidol - gan ddatgloi £350 miliwn o werth ychwanegol gros dros 15 mlynedd.

**Pweru Twf: Tech-Amaeth a Bwyd Uchel eu Gwerth**

Mae bwyd yn pweru pobl. Mae De-orllewin Cymru yn cyfuno traddodiad a thechnoleg i ddarparu ffermio cynaliadwy a chynhyrchu bwyd premiwm, o amaethyddiaeth wedi'i galluogi gan y Rhyngrwyd Pethau (IoT) i gyfleusterau arloesol fel Hufenfa Sir Benfro.

**Mae ein huchelgais yn glir:** Drwy adeiladu ar ein treftadaeth a chroesawu diwydiannau'r dyfodol, bydd De-orllewin Cymru yn parhau i bweru Cymru a'r DU am genedlaethau i ddod.

## 2.3 Egwyddorion Arweiniol

Bydd dull y rhanbarth o fuddsoddi yn cael ei danategu gan set glir a chyson o egwyddorion sy'n sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu cyfeirio tuag at gyfleoedd sy'n darparu gwerth hirdymor gwirioneddol. Mae'r egwyddorion hyn yn darparu fframwaith ar gyfer asesu cynigion, llywio penderfyniadau cyllido, a chynnal portffolio buddsoddi cytbwys sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

**1. Cyd-fynd â blaenoriaethau polisi**

Bydd gofyn i bob buddsoddiad ddangos cydweddiad cryf â blaenoriaethau polisi Cymru a'r DU, gan sicrhau cysondeb â chenadaethau'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ynni a sero net, gwydnwch ac arloesedd busnes, yr economi profiad, a chyfleoedd sy'n darparu effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol ar y cyd. Mae cyd-fynd â blaenoriaethau polisi yn sicrhau bod gweithgarwch buddsoddi yn cefnogi amcanion strategol ehangach ac yn cyfrannu'n ystyrlon at drawsnewid y rhanbarth i economi fwy cynaliadwy, gynhyrchiol a theg.

**2. Blaenoriaethu parodrwydd a chyflawnadwyedd**

Bydd cyllid yn cael ei gyfeirio tuag at brosiectau sydd wedi'u datblygu'n dda, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gadarn yn ariannol. Rhaid i gynigion gyflwyno llwybrau cyflawni clir, amserlenni realistig a threfniadau rheoli credadwy, gan roi hyder y gellir cyflawni canlyniadau'n effeithiol. Mae'r egwyddor hon yn helpu i leihau risg cyflawni wrth gyflymu cynnydd ar fentrau gwerth uchel sy'n gallu symud yn gyflym i'w gweithredu.

**3. Cynnal hyblygrwydd a chymhwysedd**

Mae'r amgylchedd buddsoddi yn newid yn gyflym, ac mae anghenion rhanbarthol yn esblygu dros amser. Er mwyn parhau'n ymatebol, bydd y portffolio'n cadw hyblygrwydd i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, addasu i newidiadau polisi neu'r farchnad, a chefnogi cynigion arloesol neu rai

sy’n sensitif i amser. Mae’r hyblygrwydd hwn yn sicrhau y gall y rhanbarth fanteisio ar gyfleoedd strategol tra’n rheoli ansicrwydd mewn ffordd ragweithiol a gwybodus.

**4. Cryfhau’r economi ranbarthol**

Bydd buddsoddiadau’n cael eu hasesu yn ôl eu gallu i gryfhau cynhyrchiant rhanbarthol, cefnogi twf busnes, ysgogi arloesedd a chreu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy’n gwella cydnerthwch economaidd hirdymor, yn adeiladu cryfderau sector ac yn codi cystadleurwydd cyffredinol y rhanbarth. Mae’r egwyddor hon yn sicrhau bod buddsoddiad yn cyfrannu at welliannau strwythurol parhaus yn hytrach na manteision tymor byr.

**Sut y bydd yr egwyddorion hyn yn llywio penderfyniadau cyllido**

Gyda’i gilydd, bydd yr egwyddorion hyn yn gweithredu fel fframwaith cydlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan arwain y broses o arfarnu, blaenoriaethu a dewis cynigion buddsoddi. Byddant yn sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu i brosiectau sy’n cyd-fynd yn strategol, sy’n gyflawnadwy, yn canolbwyntio ar y dyfodol ac yn gallu ysgogi effaith economaidd ystyrlon. Bydd yr egwyddorion hefyd yn cefnogi tryloywder a chysondeb wrth wneud penderfyniadau, gan helpu rhanddeiliaid i ddeall sut a pham y gwneir dewisiadau buddsoddi a chryfhau hyder yn ymagwedd y rhanbarth at dwf.

# 3 Buddsoddi yn Ne-orllewin Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r cryfderau economaidd, ysgogwyr strategol a'r deinameg strwythurol sy'n siapio tirwedd fuddsoddi De-orllewin Cymru. Mae'n darparu trosolwg o berfformiad economaidd y rhanbarth, ei sylfaen fusnes, ei farchnad lafur, ei broffil cynhyrchiant a chyflwr eiddo masnachol, gan sefydlu dealltwriaeth glir o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n sail i benderfyniadau buddsoddi. Mae hefyd yn amlygu sut mae blaenoriaethau'r rhanbarth yn cyd-fynd â fframweithiau polisi allweddol Cymru a'r DU, gan sicrhau bod y Strategaeth Buddsoddi wedi'i seilio mewn amgylchedd polisi cydlynol aml-lefel.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y sail dystiolaeth ategol.

## 3.1 Sylfeini Economaidd ar gyfer Buddsoddi

### *3.1.1 Polisi ac Aliniad Strategol*

Mae Strategaeth Buddsoddi De-orllewin Cymru yn cyd-fynd yn gryf â pholisïau allweddol ar draws lefelau'r DU, Cymru, rhanbarthol a lleol, gan sicrhau bod ymyriadau arfaethedig yn atgyfnerthu yn hytrach na dyblygu blaenoriaethau presennol.

Ar lefel y DU, mae cryfderau'r rhanbarth mewn gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd ac ynni glân yn adlewyrchu strategaeth ddiwydiannol genedlaethol ac uchelgeisiau sero net. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru - gan gynnwys y Genhadaeth Economaidd, y Cynllun Gweithredu Economaidd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - yn cael eu hadlewyrchu yn ffocws y rhanbarth ar arloesedd, datgarboneiddio, cynhyrchiant a chydnerthwch hirdymor.

Yn rhanbarthol, mae cenadaethau'r CJC Corfforaethol De-orllewin Cymru i arwain y DU ym maes ynni adnewyddadwy, cryfhau'r sylfaen fusnes a thyfu'r economi brofiad yn darparu asgwrn cefn strategol i'r Strategaeth, wedi'u cefnogi gan asedau fel y Porthladd Rhydd Celtaidd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu blaenoriaethau cyflenwol - yn amrywio o ffocws Sir Gaerfyrddin ar arloesedd a sero net, i gryfderau Sir Benfro ym maes ynni a morol, uchelgeisiau Castell-nedd Port Talbot ym maes Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni Gwyrdd, a statws dinas ranbarthol Abertawe a'i rhaglenni adfywio a seilwaith digidol mawr - gan greu amgylchedd polisi cydlynol sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

### *3.1.2 Seilwaith: Rhanbarth wedi'i Adeiladu ar gyfer Cysylltedd a Thwf*

Mae daearyddiaeth y rhanbarth yn gosod De-orllewin Cymru fel porth strategol dwyrain-gorllewin allweddol rhwng y DU, Iwerddon a chyfandir Ewrop. Mae coridor yr M4, y Brif Linell Orllewinol Fawr a'r porthladdoedd strategol gyda'i gilydd yn ffurfio llwybr Ewro-Iwerydd cysylltiedig, gan gryfhau rôl y rhanbarth ym maes logisteg, ynni, gweithgynhyrchu a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar allforio.

Mae De-orllewin Cymru yn elwa ar blatfform seilwaith cryf ac wedi'i integreiddio'n dda sy'n cefnogi ffyniant rhanbarthol a chyfleoedd rhyngwladol. Mae Rhanbarth Dinas Bae Abertawe yn

cael ei wasanaethu gan rwydwaith rheilffyrdd helaeth gyda mwy na 12 o orsafoedd, gan gysylltu canolfannau allweddol fel Abertawe, Castell-nedd, Parcffordd Port Talbot, Llanelli, Caerfyrddin, Aberdaugleddau ac Abergwaun. De-orllewin Cymru hefyd yw dechrau'r Brif Linell Orllewinol Fawr. Mae'r cysylltiad hwn yn darparu gwasanaethau rheolaidd i brif ddinasoedd y DU megis Caerdydd, Bryste a Llundain, gan gryfhau hygyrchedd y rhanbarth ar gyfer teithwyr a theithio busnes.

Mae gan y rhanbarth hefyd fantais forwrol sylweddol drwy bum porthladd strategol, gan gynnwys Abertawe, Aberdaugleddau, Port Talbot, Abergwaun a Doc Penfro. Mae'r porthladdoedd hyn yn darparu mynediad uniongyrchol at lwybrau llongau rhyngwladol, yn gallu croesawu llongau mordeithio (gan gefnogi'r diwydiant twristiaeth rhanbarthol), yn sail i weithgarwch logisteg ac yn cefnogi sectorau twf mawr fel ynni adnewyddadwy alltraeth, gweithgynhyrchu uwch a'r trawsnewid ynni. Mae Aberdaugleddau yn benodol yn un o borthladdoedd ynni prysuraf y DU, tra bod capasiti dŵr dwfn Port Talbot yn cefnogi gweithrediadau diwydiannol ar raddfa fawr.

Yn ogystal, mae De-orllewin Cymru yn elwa ar Faes Awyr Abertawe a'i hagosrwydd at brif feysydd awyr, gyda Maes Awyr Caerdydd tuag awr i ffwrdd a Maes Awyr Bryste o fewn dwy awr, gan wella cysylltedd byd-eang. Ynghyd â buddsoddiad parhaus mewn band eang cyflym a seilwaith digidol, mae'r rhanbarth yn cynnig y cysylltedd corfforol a digidol sydd ei angen ar gyfer mentrau modern a thwf yn y dyfodol.

Fel llawer o ranbarthau yn y DU, mae De-orllewin Cymru yn wynebu bwlch hyfywedd masnachol mewn rhai sectorau ac ardaloedd, yn enwedig ar gyfer adfywio sy'n ddwys o ran cyfalaf, seilwaith ynni glân a datblygu tir llwyd. Felly, mae mynd i'r afael â chostau anghyffredin, adfer tir a risg camau cynnar yn hanfodol i ddatgloi buddsoddiad y sector preifat a chyflymu'r gwaith o gyflawni.

### *3.1.3 Demograffeg Rhanbarth sy'n Tyfu gyda Graddfa a Photensial Hirdymor*

Mae De-orllewin Cymru yn gartref i boblogaeth o 711,114 o bobl (2024), gan ddarparu marchnad lafur sylweddol a sylfaen defnyddwyr eang. Mae'r rhanbarth wedi cofnodi twf poblogaeth o 3.4% dros y pum mlynedd diwethaf, gan berfformio'n well na Gogledd Cymru ac yn dangos ei atyniad fel lle i fyw a gweithio.

Mae Abertawe yn gweithredu fel angor economaidd, gan gyfrif am oddeutu 40% o gyflogaeth ac allbwn rhanbarthol, ac yn cynnig dalgylch gweithlu mawr gyda dros 600,000 o bobl yn byw o fewn taith 30 munud mewn car.

Wrth edrych ymlaen, rhagwelir y bydd twf poblogaeth yn parhau hyd at 2035, gan ddarparu sylfaen hirdymor sefydlog ar gyfer buddsoddi. Er bod tueddiadau demograffig fel poblogaeth sy'n heneiddio yn creu pwysau ar y farchnad lafur, maent hefyd yn atgyfnerthu cyfleoedd ym meysydd iechyd, arloesedd, awtomeiddio a datblygu'r gweithlu.

I fuddsoddwyr, mae cyflenwad tai fforddiadwy, amrywiol ac o ansawdd uchel yn elfen bwysig o'r seilwaith economaidd ehangach, gan ddylanwadu ar gyfranogiad yn y farchnad lafur, denu talent a chynhyrchiant hirdymor. Mae argaeledd tai addas yn Ne-orllewin Cymru yn ffactor strwythurol, ochr yn ochr â thrafnidiaeth, cyfleustodau a chysylltedd digidol, sy'n siapio gallu'r rhanbarth i ddarparu ar gyfer twf.

### 3.1.4 *Economi: Sylfeini Cryf a Momentwm Twf Uchel*

Mae gan Dde-orllewin Cymru economi amrywiol a chydnerth, wedi'i thanategu gan sylfaen fywiog o fusnesau bach a chanolig. Mae'r rhanbarth yn gartref i 28,080 o fusnesau, gyda 83.2% wedi'u dosbarthu fel mentrau micro, gan greu diwylliant cryf o entrepreneuriaeth a menter leol. Mae deinameg busnes hefyd yn amlwg, gyda 2,215 o fusnesau newydd wedi'u sefydlu yn 2023, sy'n cynrychioli dros un rhan o bump o'r holl fusnesau newydd yng Nghymru.

Mae'r rhanbarth yn dangos potensial twf uwch na'r cyfartaledd, gyda 4.5% o gwmnïau wedi'u dosbarthu fel rhai twf uchel, yn rhagori ar ardaloedd cymharol yng Nghymru. Mae De-orllewin Cymru hefyd yn cyd-fynd yn dda â Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU, gyda chryfderau sefydledig mewn ynni glân, gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd ac economi'r profiad.

Mae Abertawe yn gweithredu fel angor economaidd ar gyfer De-orllewin Cymru, gan gyfrif am tua 40% o werth ychwanegol gros a chyflogaeth y rhanbarth, ac yn darparu màs critigol mewn swyddi, sgiliau, seilwaith ac arloesedd sy'n cefnogi twf ar draws y rhanbarth ehangach. Mae'r rôl hon yn cael ei hategu gan gryfderau gwahanol ond cyd-ddibynnol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu asedau diwydiannol mawr, seilwaith ynni, porthladdoedd, mentrau gwledig ac amgylcheddau naturiol o bwysigrwydd cenedlaethol.

Mae rhaglenni buddsoddi mawr yn cyflymu momentwm rhanbarthol, ac mae marchnad eiddo masnachol tyn hefyd yn adlewyrchu hyder busnes, gyda chyfradd meddiannaeth o 96.6% a lefelau isel iawn o wagleoedd diwydiannol, gan amlygu galw cryf am eiddo o ansawdd uchel a chyfleoedd datblygu yn y dyfodol.

### 3.1.5 *Pobl a Thalent: Sgiliau, Arloesedd a Chyfleoedd y Dyfodol* [1]

Mae pobl a thalent wrth wraidd stori twf De-orllewin Cymru. Mae cyfanswm y gyflogaeth ar draws y rhanbarth yn fwy na 285,000 o swyddi, gyda chrynodiadau allweddol mewn iechyd, manwerthu, addysg, gweithgynhyrchu a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Mae cynnig buddsoddi De-orllewin Cymru wedi'i danategu gan farchnad lafur fawr ac amrywiol, ac uchelgais glir i dyfu cyflogaeth o sgiliau uwch a gwerth uwch. Mae sylfaen sgiliau sy'n esblygu ar draws De-orllewin Cymru, gydag Abertawe yn arbennig yn dangos proffil gweithlu mwy medrus, wedi'i gefnogi gan ei phrifysgolion, ei asedau arloesedd a'i biblinell o raddedigion. Mae hyn yn darparu mantais gystadleuol i sectorau fel gweithgynhyrchu uwch, digidol, iechyd a gwyddorau bywyd, ac ynni glân, tra bod cydweithio parhaus rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg a phartneriaid cyhoeddus yn helpu i alinio darpariaeth sgiliau'r dyfodol â chyfleoedd buddsoddi sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r rhanbarth yn elwa ar sylfaen addysg ac arloesedd cryf, gyda bron i 37,000 o gofrestriadau prifysgol wedi'u cofnodi yn 2023/24. Mae Prifysgol Abertawe yn arweinydd cydnabyddedig mewn creu mentrau, wedi cynhyrchu 58 o gwmnïau deillio ers 2011, ac ymhlith y prifysgolion gorau yn y DU ar gyfer masnacheiddio ymchwil. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant hefyd wedi'i

---

[1] https://www.rlp.org.uk/SharedFiles/Download.aspx?pageid=2&mid=13&fileid=50

graddio'n gyntaf yn y DU am gefnogi busnesau newydd gan raddedigion sy'n parhau'n weithredol ar ôl tair blynedd.

Mae De-orllewin Cymru yn cynhyrchu dros 10,000 o raddedigion bob blwyddyn, gan gyflenwi talent i sectorau blaenoriaeth fel peirianneg, gwyddorau bywyd, technoleg ddigidol, diwydiannau creadigol ac ynni adnewyddadwy. Trwy ei Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSR), mae'r rhanbarth yn cryfhau cydweithio rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg ac asiantaethau cyhoeddus i sicrhau bod darpariaeth sgiliau yn cyd-fynd â galw'r gweithlu yn y dyfodol mewn ynni glân, adeiladu, gweithgynhyrchu, iechyd a digidol.

Yn galonogol, mae galw gan gyflogwyr yn gryf: mae tystiolaeth gan PDSR De-orllewin Cymru yn dangos bod 75% o gyflogwyr a arolygwyd yn bwriadu recriwtio yn ystod y 12 mis canlynol, ond bod 55% wedi adrodd am heriau sgiliau a bod 73% wedi cael trafferth recriwtio ar gyfer rolau penodol, gan nodi bwlch clir rhwng swyddi gwag a'r sgiliau sydd ar gael. Nododd arolwg sgiliau cyflogwyr fod tua un o bob saith cyflogwr yng Nghanol a De Cymru naill ai â phrentisiaid neu'n cynnig prentisiaethau.[2]

Mae'r PDSR yn darparu rôl alluogi hanfodol ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi, gan ddod â chyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant ynghyd i alinio darpariaeth sgiliau â galw presennol a'r dyfodol yn y farchnad lafur. Trwy ei Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae'r PDSR yn cefnogi sectorau blaenoriaeth gan gynnwys ynni glân, gweithgynhyrchu uwch, digidol ac iechyd, gan sicrhau bod buddsoddi mewn prosiectau a seilwaith yn cael ei gyfateb gan biblinell o sgiliau, prentisiaethau a llwybrau cynnydd sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau economaidd y rhanbarth..

Mantais arall i Dde-orllewin Cymru yw bod ei chost byw gymharol is yn cryfhau'r gallu i ddenu talent ac yn cefnogi mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu, gan alluogi sefydliadau i recriwtio a chadw pobl medrus yn fwy effeithiol wrth gynnig ansawdd bywyd uchel.

### *3.1.6 Digidol, Arloesedd a'r Cyfle IoT*

Mae De-orllewin Cymru mewn sefyllfa gynyddol dda i fanteisio ar fuddion trawsnewid digidol, gyda chyfleoedd cynyddol sy'n gysylltiedig â'r Rhyngrwyd Pethau (IoT), awtomeiddio, a seilwaith clyfar. Mae cyfuniad y rhanbarth o alluoedd gweithgynhyrchu uwch, asedau ynni, diwydiannau gwledig ac arloesedd a arweinir gan brifysgolion yn creu amgylchedd delfrydol ar gyfer mabwysiadu IoT ar draws sawl sector.

Ym meysydd tech-amaeth a chynhyrchu bwyd, mae offer digidol fel monitro o bell, technolegau synhwyrydd a ffermio sy'n cael ei yrru gan ddata yn dechrau cefnogi cynhyrchiant a chynaliadwyedd. Mewn diwydiannau ynni a sero net, bydd systemau wedi'u galluogi gan IoT yn chwarae rôl hanfodol mewn gridiau clyfar, integreiddio ynni adnewyddadwy, cynnal a chadw rhagfynegol a datgarboneiddio diwydiannol. Disgwylir i Raglen Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe gynyddu gwerth ychwanegol gros rhanbarthol bron i £350 miliwn dros 15 mlynedd, gan ddatgloi buddion ehangach a chryfhau cystadleurwydd digidol y rhanbarth.

[2] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2025-06/employer-skills-survey-2022-mid-and-south-west-wales-report.pdf

Gyda chyflwyno band eang yn parhau, buddsoddi mewn 5G, a chanolfannau arloesedd fel y Matrics Arloesi ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae De-orllewin Cymru yn adeiladu'r sylfeini i ddod yn rhanbarth blaenllaw ar gyfer diwydiant clyfar, technolegau cysylltiedig â thwf wedi'i alluogi'n ddigidol.

### *3.1.7 Tirwedd Buddsoddi*

Mae De-orllewin Cymru yn elwa ar dirwedd buddsoddi gref sy'n tyfu, wedi'i thanategu gan allu ymchwil o safon fyd-eang, angorau diwydiannol mawr, a rhaglenni adfywio hirdymor y sector cyhoeddus. Mae lefelau sylweddol o weithgarwch ymchwil a datblygu yn cael eu harwain gan Brifysgol Abertawe a'i phartneriaid diwydiannol, gan gefnogi arloesedd mewn meysydd fel ynni glân, datgarboneiddio diwydiannol a deunyddiau uwch. Mae mentrau cenedlaethol, gan gynnwys rhaglenni Innovate UK ac ardaloedd lansio rhanbarthol, yn cryfhau ymhellach safle'r rhanbarth fel safle prawf ar gyfer technolegau sero net a diwydiannau'r dyfodol.

Ochr yn ochr â'r sylfaen arloesedd hon, mae De-orllewin Cymru wedi sicrhau buddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol sy'n helpu ail-lunio economi'r rhanbarth. Mae trawsnewid diwydiannol yn parhau i fod yn ysgogydd allweddol, fel y dangosir gan drawsnewidiad £1.25 biliwn Tata Steel tuag at dechnoleg ffwrnais arc drydan, gan gefnogi datgarboneiddio diwydiant trwm ac atgyfnerthu rôl y rhanbarth yn nyfodol diwydiannol gwyrdd y DU.

Mae buddsoddi ar raddfa fawr sy'n seiliedig ar leoliad, fel rhaglen adfywio canol dinas Abertawe gwerth £1 biliwn, hefyd yn cyflymu'r broses o gyflawni ar draws y rhanbarth. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cynrychioli hyd at £1.3 biliwn ar draws portffolio o raglenni, yn cefnogi prosiectau mawr fel Pentre Awel, Ardal Forol Doc Penfro a buddsoddi mewn seilwaith digidol, gan helpu i ddatgloi adfywio, arloesedd a datblygu sgiliau. Mae mentrau ategol, gan gynnwys Parthau Menter, gweithgarwch adfywio canol trefi a'r cynnig Porthladd Rhydd Celtaidd sy'n dod i'r amlwg, yn darparu momentwm pellach ac yn creu llwyfan ar gyfer buddsoddi mewnol a chreu swyddi yn y dyfodol.

## 3.2 Cryfderau ac Asedau Rhanbarthol

### *3.2.1 Ynni, Sero Net a'r Economi Werdd*

Yn unol â strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mae De-orllewin Cymru mewn sefyllfa unigryw i sefydlu ei hun fel rhanbarth blaenllaw ar gyfer archwilio ac integreiddio technolegau ynni adnewyddadwy a'r ymdrech ehangach i ddatblygu economi werdd.

Er ei bod yn anodd ei diffinio drwy ddiffiniadau sector confensiynol sy'n seiliedig ar ddosbarthiad diwydiannol safonol (SIC), mae diffiniad darbodus o'r sector sy'n gysylltiedig ag ynni, yn ôl Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, yn cyfrif am bron i 8,000 o swyddi eisoes ar draws y rhanbarth[3]. Gellir modelu hyn i gyfrannu dros £2.7 biliwn i economi'r rhanbarth o ran gwerth ychwanegol

[3] Mae cyfrifon cyflogeion wedi'u tynnu o Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth yr ONS. Lle bo angen, mae sectorau wedi'u diffinio'n fras gan ddefnyddio diffiniadau sy'n seiliedig ar SIC.

gros[4], er bod y cyfraniad cyffredinol yn debygol o fod yn uwch na hyn, yn enwedig gan fod Data City yn dangos dros 70,000 o weithgareddau cyflogaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at weithgareddau sy'n gysylltiedig â sero net. Mae hyn yn cynnwys crynodiadau o gyflogaeth ar draws cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ailgylchu a chyflwyno seilwaith. Mae hefyd wedi bod gostyngiad nodedig mewn cyflogaeth mewn gweithgareddau llai cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar danwydd ffosil.

### *3.2.2 Gweithgynhyrchu, Technoleg a Deunyddiau*

Mae gan Dde-orllewin Cymru feysydd arbenigedd clir mewn deunyddiau uwch, dur gwyrdd sy'n dod i'r amlwg, datgarboneiddio diwydiannol a gweithgynhyrchu sy'n gysylltiedig â'r môr, sydd wedi'u halinio'n agos â'r trawsnewid ynni ac anghenion cadwyni cyflenwi carbon isel y dyfodol. Mae'r arbenigeddau hyn yn cael eu cefnogi gan asedau rhanbarthol allweddol megis Tata Steel, y Porthladd Rhydd Celtaidd, Parthau Menter a sefydliadau addysg uwch blaenllaw.

Ar hyn o bryd, gan gyfuno arferion gweithgynhyrchu traddodiadol â thechnolegau gweithgynhyrchu uwch a Diwydiant 4.0, mae'r sector gweithgynhyrchu ehangach a'i sylfaen fusnes o dros 1,000 yn parhau i gyflogi dros 23,000 o weithwyr yn Ne-orllewin Cymru. Mae Data City hefyd yn dangos bod y sector deunyddiau uwch, fel y'i diffinnir gan y Dosbarthiad Diwydiannol Amser Real (RTIC), â chymhareb lleoliad o 2.5, sy'n nodi lefel uchel o arbenigedd o'i gymharu â'r economi genedlaethol. Mae cryfderau is-sector penodol yn parhau i fod yn gysylltiedig â gweithgynhyrchu metelau yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mae dros 3,000 o bobl yn gweithio yn yr is-sector. Mae'r cryfderau presennol hyn yn cyfrannu at werth ychwanegol gros rhanbarthol y sector o £1.59 biliwn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cymysgedd o ddata ONS BRES ac Experian.

### *3.2.3 Iechyd a Gwyddorau Bywyd*

Mae iechyd a gwyddorau bywyd yn sector allweddol sefydledig yn Ne-orllewin Cymru, ac yn cyfuno lefelau uchel o gyflogaeth, arbenigedd rhanbarthol, twf sector ac ystod o asedau blaenllaw ar lefel genedlaethol.

Gydag oddeutu 30,000 o weithwyr mewn gweithgareddau iechyd dynol a Chymhareb Lleoliad uwchlaw 1, mae De-orllewin Cymru'n dod i'r amlwg fel cyrchfan allweddol ar gyfer arloesedd gofal iechyd blaengar a rhagoriaeth ymchwil. Mae'r sector wedi'i hangori gan Sefydliad Gwyddor Bywyd a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Chwaraeon ac Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe, a champws blaenllaw Pentre Awel yng Nghaerfyrddin. Yn ehangach, mae'r sector wedi'i danategu gan bartneriaethau cryf rhwng y byd academaidd, 695 o fusnesau rhanbarthol, a'r GIG. Gyda'i gilydd, mae'r cyfuniad hwn o gryfderau yn cyfrannu dros £1.2 biliwn o werth ychwanegol gros, ac yn galluogi'r rhanbarth i ysgogi datblygiadau mewn technoleg feddygol ac i gynnig cyfleoedd graddadwy i fuddsoddwyr ym maes iechyd, iechyd digidol a lles.

Mae partneriaid iechyd, gan gynnwys pwyllgorau rhanbarthol, prifysgolion a rhwydweithiau gwyddorau bywyd, yn cynrychioli sefydliadau angor allweddol yn Ne-orllewin Cymru. Y tu hwnt i

[4] Mae gwerth ychwanegol gros sectorol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon gwerth ychwanegol gros fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gafwyd gan Experian. Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu cyfrannau'r gweithwyr amser llawn a rhan-amser o fewn sector fel y nodwyd yn nata BRES, gyda gweithwyr rhan-amser yn cael eu tybio i gynrychioli hanner FTE.

ddarparu gwasanaethau, mae gan y sector rôl gynyddol wrth lunio ecosystemau arloesedd, cefnogi ymchwil glinigol, galluogi trawsnewid digidol sy'n seiliedig ar ddata, a gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddi mewn gwyddorau bywyd, technoleg feddygol ac atebion iechyd ataliol.

### *3.2.4 Yr Economi 'Profiad'*

Mae cyfuniad unigryw De-orllewin Cymru o ddinas lan y dŵr fywiog Abertawe â harddwch naturiol ardaloedd fel Sir Benfro wedi galluogi'r rhanbarth i ddatblygu cryfderau penodol yn yr hyn y gellir ei ddiffinio'n eang fel economi'r 'profiad'. Mae'r cymysgedd hwn yn cefnogi amrywiaeth o brofiadau i ymwelwyr, o ddiwylliant a digwyddiadau mewn dinasoedd i dwristiaeth wledig, arfordirol a naturiol. Gallai buddsoddi mewn cysylltu'r gwahanol agweddau hyn ar economi'r 'profiad' helpu i gynyddu hyd arhosiad, ymweliadau ailadroddus a gweithgarwch economaidd drwy gydol y flwyddyn ar draws y rhanbarth.

Gan gwmpasu nifer o sectorau sy'n ymwneud â thwristiaeth, hamdden, treftadaeth a diwylliant, mae bron i 40,000 o bobl yn gweithio yn economi'r 'profiad' ar draws De-orllewin Cymru, sy'n cyfrannu bron i £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros i economi'r rhanbarth. Ceir tystiolaeth bellach o botensial twf ac amrywiaeth y sector drwy arbenigedd clir y rhanbarth mewn is-sectorau perthnasol gan gynnwys llety a gwasanaethau bwyd, hamdden a manwerthu. Mae cyflogaeth ar draws sectorau'r economi 'profiad' hefyd wedi cynyddu bron i 1,500 ers y pandemig, gyda dros 6,000 o fusnesau yn cefnogi lefelau parhaus uchel o dwristiaeth a gweithgarwch ymwelwyr.

### *3.2.5 Sectorau sy'n dod i'r amlwg*

Yn ogystal â'r sectorau blaenoriaeth, mae nifer o ddiwydiannau sy'n dod i'r amlwg yn dangos potensial twf cryf yn y dyfodol.

***Sector Creadigol a Digidol***

Disgwylir i Raglen Seilwaith Digidol gwerth £55 miliwn o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe ysgogi ehangiad mawr yn y sector creadigol a digidol, gyda chynnydd rhagamcanol o £350 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros dros 15 mlynedd a mwy na £100 miliwn mewn buddion ehangach. Bydd twf yn cael ei gefnogi gan arloesedd a arweinir gan brifysgolion, ecosystem greadigol ranbarthol weithgar (gan gynnwys Abertawe Greadigol a 4theRegion), a galw parhaus gan gwmnïau ffilm, teledu a'r cyfryngau fel Tinopolis, ochr yn ochr ag S4C, darlledwr cenedlaethol Cymraeg sydd â'i bencadlys yn Sir Gaerfyrddin, sy'n darparu sefydliad angor cryf ar gyfer economi sgrin a digidol y rhanbarth. Mae'r rhanbarth hefyd yn cynnig asedau cynhyrchu sylweddol, yn enwedig Bay Studios yng Nghastell-nedd Port Talbot - un o'r stiwdios ffilm dan do mwyaf yn Ewrop gyda 265,000 troedfedd sgwâr o ofod stiwdio a 30,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd cynhyrchu.

***Tech-amaeth a chynhyrchu bwyd gwerth uchel***

Mae sylfaen wledig gref y rhanbarth, ynghyd â mabwysiadu cyflym o dechnolegau digidol a manwl, yn gosod De-orllewin Cymru fel clwstwr tech-amaeth sy'n tyfu. Mae cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg drwy ffermio wedi'i alluogi gan IoT ac sy'n cael ei yrru gan ddata, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anodd eu cyrraedd. Mae mentrau fel rhwydwaith "Ein Ffermydd" Cyswllt

Ffermio yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn cyflymu mabwysiadu technoleg ac yn gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Mae'r BioHYB Cynhyrchion Naturiol ym Mhrifysgol Abertawe yn cryfhau'r sector tech-amaeth yn Ne-orllewin Cymru drwy gefnogi darganfod a datblygu cynhyrchion naturiol sy'n cael eu harwain gan ymchwil o adnoddau amaethyddol a biolegol, gan gysylltu cynhyrchu sylfaenol ag ymchwil gymhwysol, arloesedd a masnacheiddio. Yn y cyfamser, mae agoriad Hufenfa Sir Benfro - cyfleuster cynhyrchu llaeth "glaswellt-i-botel" cyntaf Cymru - yn dangos cynnydd clir mewn cynhyrchu bwyd gwerth uchel sy'n cael ei arwain gan arloesedd.

Mae asedau sector ategol fel Coleg Amaethyddol Gelli Aur yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sgiliau sy'n seiliedig ar dir, tech-amaeth ac arloesedd bwyd. Mae darparwyr addysg a hyfforddiant eraill hefyd yn cefnogi rôl sy'n dod i'r amlwg y sector hwn, tra'n creu llwybrau i yrfaoedd gwledig ac amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

# 4 Cyfleoedd Buddsoddi

## 4.1 Crynodeb o'r Biblinell Brosiectau

Derbyniodd galwad am brosiectau ym mis Tachwedd 2025 ar draws y rhanbarth dros 45 o ymatebion. Roedd y prosiectau a gyflwynwyd naill ai'n diweddaru prosiectau presennol o fewn piblinell y Cynllun Cyflawni (megis Pentre Awel), neu'n gwbl newydd. Gyda'i gilydd, mae'r cyflwyniadau hyn yn dechrau ffurfio piblinell brosiectau wedi'i hadnewyddu ar gyfer y rhanbarth, a fydd yn parhau'n fyw ac yn cael ei diweddaru.

Daeth y cyflwyniadau gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol (ar draws sawl adran), prifysgolion, colegau, datblygwyr eiddo, sefydliadau elusennol a gwirfoddol, ac amrywiaeth o gwmnïau preifat. Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi'u lleoli'n lleol o fewn y rhanbarth, gyda nifer fach o sefydliadau allanol hefyd yn cyfrannu.

Roedd y prosiectau'n cwmpasu sectorau gan gynnwys ynni, economi gylchol, iechyd a gwyddorau bywyd, twristiaeth a diwylliant, adeiladu a thai, trafnidiaeth, amaethyddiaeth a bwyd, a gweithgynhyrchu. Roedd llawer o brosiectau'n croesi sawl sector. Y sectorau mwyaf cyffredin ymhlith y prosiectau oedd y rhai sy'n gysylltiedig â sero net ac economi'r profiad.

Mae'r biblinell fuddsoddi yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o brosiectau.

- Prosiectau cyfalaf mawr – yn ymestyn dros;
  - Datblygiadau trefol mawr fel Porth Copr yng Nghanol Dinas Abertawe;
  - Prosiectau diwydiannol blaenllaw mewn gweithgynhyrchu uwch ac ynni glân, megis ffwrnais arc drydan Port Talbot;
  - Ynni fel Prosiect CO2 Aberdaugleddau; ac,
  - Datblygiadau lletygarwch a thwristiaeth o ansawdd uchel, megis cynigion Wildfox Resorts Dyffryn Afan ac Oriel y Parc yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.
- Ymchwil ac arloesedd – Datblygiadau canolfannau arloesedd ar draws amrywiaeth o sectorau gan gynnwys:
  - Iechyd a gwyddorau bywyd (cam 2 Pentre Awel);
  - Bwyd ac amaethyddiaeth (Bremenda Isaf);
  - Trafnidiaeth (Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd);
  - Economi gylchol (Cwm Gyrdd Nant-y-caws);
  - Ynni glân (Ardal Profi Ynni Morol).
- Seilwaith traws ranbarthol – Prosiectau i uwchraddio cysylltedd trawsranbarthol gan gynnwys Metro Gorllewin Cymru, fflyd bysiau trydan, gorsafoedd a llwyfannau rheilffordd newydd, a rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan.

- Addysg a sgiliau – Cynigion i feithrin datblygiad y gweithlu, gan gefnogi'r rhanbarth i feddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o swyddi ynni glân, canolfannau hyfforddi rhagoriaeth mewn amrywiaeth o sectorau gan gynnwys lletygarwch ac adeiladu, a chefnogaeth i fusnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaid mewn sgiliau sylfaenol newydd megis marchnata digidol a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial.
- Cymorth busnes – Cyfres o gynigion i gefnogi busnesau o fewn y rhanbarth i dyfu. Roedd y cynigion yn cynnwys cymysgedd o;
    - Rhaglenni cymorth ariannol i gefnogi hyfywedd datblygu eiddo, buddsoddi mewn ynni glân ac effeithlonrwydd ynni, a chyllid amyneddgar ar gyfer mentrau cymdeithasol;
    - Cyngor technegol a datblygu sgiliau ar gyfer datgarboneiddio, cael mynediad at gontractau caffael cyhoeddus, sgiliau digidol a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial;
    - Adeiladu rhwydweithiau sectorol, megis cefnogi a hyrwyddo Clwstwr Creadigol Abertawe i ehangu'n rhanbarthol.

Yn gyffredinol, roedd pob prosiect gyda'i gilydd yn cynrychioli dros £6 biliwn o gyfleoedd buddsoddi.

Roedd y prosiectau a gyflwynwyd ar wahanol gamau datblygu, yn amrywio o gysyniad a chynnig cynnar, i achos busnes, cyn cyflawni, ac eisoes yn cael eu cyflawni ac yn chwilio am fuddsoddiad ychwanegol.

O ystyried yr amrywiaeth o gamau, mathau a graddfeydd prosiect, roedd y cymorth yr oedd sefydliadau sy'n cyflwyno cynigion ei angen gan sefydliadau cefnogol (e.e. awdurdodau lleol, y CJC) yn amrywio. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyllid cyhoeddus neu grant i bontio bylchau cyfalaf cychwynnol, lleihau risg buddsoddi neu adfer tir.
- Cyllid refeniw cyhoeddus neu grant i barhau â rhaglenni neu brosiectau llwyddiannus.
- Cyllid cyhoeddus neu grant i gefnogi ymchwil dichonoldeb, cwmpasu neu ddatblygu cynlluniau.
- Cymhellion i ysgogi galw'r farchnad a datblygu sgiliau.
- Cefnogaeth hyrwyddo i ddenu buddsoddiad preifat.
- Cefnogaeth eiriolaeth i ddenu buddsoddiad gan lywodraeth ganolog neu gymeradwyaeth ar gyfer defnyddio pwerau nad ydynt wedi'u datganoli.
- Cefnogaeth cydlynu.

Mae'n bwysig nodi bod y biblinell brosiectau yn adlewyrchu cymysgedd o ofynion cyllido ac nad yw'n cynrychioli galwad unffurf am gymorth grant. Er bod nifer o Ddatganiadau o Ddiddordeb wedi nodi'r angen am gyllid cyhoeddus, mae hyn yn aml yn ymwneud â gweithgarwch galluogi

cam cynnar megis gwaith dichonoldeb, adfer tir, gofynion seilwaith neu bontio bylchau hyfywedd, yn hytrach na disgwyliad o ariannu grant llawn.

Mae'r biblinell hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt yn fasnachol, gyda photensial clir i ddenu cyfalaf y sector preifat a sefydliadol, yn enwedig lle gall buddsoddiad cyhoeddus wedi'i dargedu helpu i leihau risg cyflawni a denu cyd-fuddsoddiad. Wrth i'r biblinell gael ei datblygu ymhellach, bydd prosiectau'n cael eu categoreiddio'n gynyddol yn ôl y llwybr cyllido mwyaf priodol, gan wahaniaethu rhwng ymyriadau a gefnogir gan grant, cynigion cyllid cymysg a'r rhai sy'n barod ar gyfer buddsoddiad preifat.

## 4.2 Mathau o Fuddsoddi

Mae cyfleoedd buddsoddi ar draws De-orllewin Cymru yn ymestyn ar draws y cylch buddsoddi llawn, o arloesedd cam cynnar a datblygu cysyniadau hyd at seilwaith ar raddfa fawr ac asedau y gellir buddsoddi ynddynt yn fasnachol. Felly, bydd y rhanbarth yn mabwysiadu dull ariannu fesul cam, gan alinio'r mathau cywir o gyfalaf â'r cam cywir o aeddfedrwydd prosiect, a sicrhau y gall prosiectau symud ymlaen o gymorth cyn-seed i dwf, graddio a buddsoddi sefydliadol hirdymor.

Mae'r galw am fuddsoddiad a'r modelau cyllido priodol yn amrywio ar draws De-orllewin Cymru, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn aeddfedrwydd y farchnad, graddfa ac amodau masnachol yn hytrach na dewis strategol. Mae datblygiadau masnachol a defnydd cymysg sydd yn fwy o ran maint a chymhlethdod yn fwy tebygol o ddenu buddsoddiad sefydliadol a hirdymor lle gellir sicrhau digon o raddfa, dwysedd a sicrwydd incwm. Mewn rhannau eraill o'r rhanbarth, mae datblygiadau masnachol ar raddfa lai, datblygiadau adfywio a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan sectorau fel arfer yn cyd-fynd yn well â buddsoddwyr preifat rhanbarthol, datblygwyr, busnesau bach a chanolig a dulliau cyllid cymysg. Gyda'i gilydd, mae'r amrywiaeth hon o fodelau buddsoddi yn cefnogi economi ranbarthol gydnerth a chytbwys.

Bydd angen gwahanol fathau o gyllid ar wahanol gamau'r cylch buddsoddi:

- **Cam cyn sbarduno a dichonoldeb:** Bydd cyllid datblygu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol sy'n galluogi cyfalaf, Cronfa Twf Lleol y DU, grantiau arloesedd (e.e. Innovate UK), a buddsoddiad trosi a arweinir gan brifysgolion yn hanfodol i gefnogi datblygu cysyniadau, paratoi achosion busnes a lleihau risg yn y camau cynnar.
- **Cam sbarduno a chynnal peilot**: Bydd cyllid Banc Datblygu Cymru, buddsoddi cymdeithasol, cyllid menter cam cynnar, a rhaglenni arddangos cymysg cyhoeddus-preifat yn helpu i ddatblygu prosiectau o'u math cyntaf, yn enwedig ym maes ynni glân, arloesedd ac adfywio canol trefi.
- **Cam twf a graddio**: Bydd cronfeydd rhanbarthol Banc Busnes Prydain, ecwiti preifat, cyd-fuddsoddi a arweinir gan sectorau, a phartneriaethau corfforaethol yn cefnogi ehangu busnesau bach a chanolig, twf cadwyni cyflenwi a buddsoddiad sy'n gwella cynhyrchiant.
- **Cyfres A ac ymlaen / cam seilwaith hirdymor**: Bydd buddsoddwyr sefydliadol, cronfeydd pensiwn, Banc Seilwaith y DU, darparwyr cyllid gwyrdd a datblygwyr strategol yn addas iawn ar gyfer prosiectau aeddfed sy'n cynnig enillion sefydlog, gan gynnwys asedau ynni adnewyddadwy, cynlluniau adfywio mawr a seilwaith sy'n cael ei gefnogi gan refeniw.

Bydd cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth hon yn gofyn am ddull buddsoddi cymysg. Ni fydd un ffynhonnell gyllido yn ddigon i gefnogi graddfa, cyflymder ac amrywiaeth y cyfleoedd ar draws De-orllewin Cymru. Yn hytrach, bydd angen alinio a defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau buddsoddi cyhoeddus, preifat ac amgen mewn ffordd gydlynol.

**Buddsoddiad Llywodraeth**

Bydd cyllid gan y llywodraeth - gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU - yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi buddsoddiad yn Ne-orllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf a refeniw sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, megis twf economaidd, sero net, sgiliau ac adfywio sy'n seiliedig ar le.

Bydd cyllid cyhoeddus yn arbennig o bwysig wrth alluogi datblygiad prosiectau cam cynnar, lleihau risg buddsoddi a chefnogi seilwaith a gwaith galluogi sy'n datgloi cyfranogiad hirdymor y sector preifat. Mae'r Strategaeth yn ceisio gosod y rhanbarth mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol i gyfleoedd cyllido'r llywodraeth yn y dyfodol drwy gynnal piblinell gref o brosiectau y gellir buddsoddi ynddynt.

Bydd cyllid cyhoeddus hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth ysgogi cyfryngau buddsoddi cenedlaethol ehangach, gan gynnwys Banc Seilwaith y DU, Banc Busnes Prydain, Innovate UK a rhaglenni trawsnewid sero net yn y dyfodol, gan osod De-orllewin Cymru mewn sefyllfa i sicrhau ffrydiau cyllido cystadleuol a datganoledig.

**Buddsoddiad y Sector Preifat**

Bydd buddsoddiad y sector preifat yn hanfodol i gyflawni graddfa a chynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cyfalaf preifat domestig ar draws sectorau megis ynni, gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd, digidol a'r economi sylfaenol.

Rôl y Strategaeth yw creu'r amodau ar gyfer buddsoddiad preifat drwy ddarparu eglurder gweledigaeth, piblinell brosiectau credadwy a threfniadau llywodraethu cefnogol. Bydd buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n ddetholus i ddenu cyfalaf preifat, lleihau risg a gwella hyfywedd masnachol lle bo'n briodol.

Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad gan ddatblygwyr strategol, cwmnïau ynni, cyfalaf menter corfforaethol, a phartneriaid cadwyn gyflenwi sy'n chwilio am gyfleoedd hirdymor sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt alltraeth arnofiol, seilwaith grid, gweithgynhyrchu uwch a pharthau arloesedd. Mewn rhai achosion, gall buddsoddiad gael ei arwain yn uniongyrchol gan ddatblygwyr, gweithredwyr neu sefydliadau angor, gan gynnwys prifysgolion, cyrff iechyd a chyflogwyr mawr. Gall y sefydliadau hyn chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu prosiectau, yn enwedig lle mae buddsoddiad yn gysylltiedig ag anghenion gweithredol hirdymor neu ddarparu gwasanaethau.

Gall cefnogi'r modelau hyn gyflymu'r broses o gyflawni a chryfhau effaith economaidd leol.

**Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor**

Mae Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor yn cynrychioli cyfle pwysig i Dde-orllewin Cymru, yn enwedig mewn sectorau twf sy'n cyd-fynd â chryfderau ac asedau'r rhanbarth. Mae hyn yn

cynnwys cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r trawsnewid ynni, arloesedd a gweithgynhyrchu gwerth uchel.

Mae’r Strategaeth yn cefnogi ymgysylltu rhagweithiol â buddsoddwyr rhyngwladol, gan weithio’n agos gyda sefydliadau cenedlaethol i hyrwyddo cynnig y rhanbarth. Bydd parodrwydd ar gyfer buddsoddi, argaeledd safleoedd a darpariaeth sgiliau yn ffactorau allweddol wrth ddenu a chadw buddsoddiad o dramor.

**Buddsoddiad Ehangach ac Amgen**

Yn ogystal â chyllid cyhoeddus a phreifat traddodiadol, mae potensial cynyddol i ddefnyddio ffurfiau ehangach ac amgen o fuddsoddi. Mae hyn yn cynnwys buddsoddwyr effaith, cyllid cymunedol, bondiau gwyrdd, cerbydau buddsoddi sy’n cael eu harwain gan genhadaeth a chyfryngau cyfalaf amyneddgar sy’n cyd-fynd â thwf cynhwysol a datgarboneiddio.

Gall y mecanweithiau hyn gefnogi prosiectau sy’n darparu canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cryf, gan gynnwys y rhai sydd â photensial i gynhyrchu refeniw. Bydd archwilio dulliau ariannu arloesol yn helpu i amrywio ffynonellau cyllido a chynyddu effaith gyffredinol buddsoddi yn Ne-orllewin Cymru.

**Cyfalaf Sefydliadol a Hirdymor**

Mae buddsoddwyr sefydliadol, gan gynnwys cronfeydd pensiwn a darparwyr yswiriant, yn cynrychioli ffynhonnell sylweddol o gyfalaf hirdymor. Mae’r math hwn o fuddsoddiad yn arbennig o addas ar gyfer prosiectau seilwaith, ynni ac adfywio ar raddfa fawr sy’n cynnig enillion sefydlog, hirdymor.

Bydd gosod prosiectau i fodloni gofynion buddsoddi sefydliadol yn gofyn am lywodraethu cryf, modelau refeniw clir a phroffil risg priodol. Lle mae aliniad, gall cyfalaf sefydliadol ddarparu cyllid amyneddgar sy’n cefnogi canlyniadau rhanbarthol hirdymor.

**Cyllid Cymysg a Modelau Cyd-fuddsoddi**

Mae dulliau cyllid cymysg yn cyfuno ffynonellau cyllido cyhoeddus, preifat ac amgen o fewn un strwythur buddsoddi. Gall hyn helpu i leihau risg prosiectau, gwella hyfywedd masnachol a datgloi buddsoddiad na fyddai fel arall yn bosibl.

Mae modelau cyd-fuddsoddi yn galluogi cyllid cyhoeddus i weithredu fel catalydd, gan ddenu cyfalaf preifat a chymdeithasol wrth gadw ffocws ar werth cyhoeddus. Mae’r dulliau hyn yn arbennig o berthnasol i brosiectau cymhleth, seiliedig ar le neu rai arloesol.

**Buddsoddiad sy'n Seiliedig ar Refeniw a Hunan-ariannol:**

Gall rhai prosiectau gynhyrchu refeniw dros amser, gan alluogi ailfuddsoddi neu ailgylchu cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys asedau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni, seilwaith digidol, eiddo a gwasanaethau.

Gall modelau sydd yn seiliedig ar refeniw wella cynaliadwyedd ariannol a lleihau dibyniaeth hirdymor ar gyllid grant. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i ailfuddsoddi enillion mewn blaenoriaethau rhanbarthol yn y dyfodol.

**Ffocws pellach ar gyllido**

Un o uchelgeisiau craidd y Strategaeth yw symud y tu hwnt i geisiadau cyllido trafodol tuag at gyd-adnabod a chyd-greu cyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar â buddsoddwyr preifat, sefydliadol a chymdeithasol i lunio prosiectau, cryfhau modelau cyflawni, a datblygu cynigion sy'n barod ar gyfer buddsoddi. Drwy alinio blaenoriaethau'r sector cyhoeddus â gofynion buddsoddwyr, gall De-orllewin Cymru gyflymu'r broses o gyflawni, lleihau darnio a denu cyfalaf hirdymor.

Bydd Cronfa Buddsoddi arfaethedig ar gyfer De-orllewin Cymru (Adran 6) yn darparu llwyfan canolog y gellir cymysgu, trefnu a defnyddio'r ffynonellau cyllid amrywiol hyn yn strategol drwyddo, gan gefnogi prosiectau o ddatblygiad cam cynnar hyd at gyflawni ar raddfa ac i fuddsoddiad hirdymor.

# 5 Symud Prosiectau Ymlaen

Mae gan ranbarth De-orllewin Cymru biblinell sylweddol o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt. Mae sicrhau fframwaith clir a thryloyw yn hanfodol i helpu'r rhanbarth i ganolbwyntio ymdrechion, cyfeirio adnoddau, a chyfathrebu portffolio sy'n barod ar gyfer buddsoddwyr.

## 5.1 Crynodeb o'r broses

Mae'r broses wedi'i chrynhoi yn Ffigur 2 isod:

***Ffigur 2: Crynodeb o'r broses***




Mae'r broses yn dechrau gyda galwad am brosiectau neu gasglu cynigion o bob rhan o'r rhanbarth. Yna cynhelir cam hidlo cychwynnol i ddeall natur pob prosiect, gan gynnwys ei ddiben strategol, ei ofynion buddsoddi a'i aliniad â blaenoriaethau allweddol. Ar y cam hwn, gall prosiectau ddechrau cael eu grwpio yn ôl y llwybr datblygu mwyaf addas iddynt, boed hynny fel ymyriadau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni, cyfleoedd piblinell ehangach neu gynigion a arweinir gan y sector preifat.

Mae'r cam nesaf yn cynnwys asesu'r llwybr cyllido mwyaf priodol, gan wahaniaethu rhwng opsiynau cyllid cyhoeddus, preifat neu gymysg. Yn dilyn hyn, caiff pob prosiect ei werthuso yn erbyn y meini prawf cyflawnadwyedd a blaenoriaethu y cytunwyd arnynt, gan alluogi'r rhanbarth i nodi'r rhai sydd â'r cydweddiad strategol cryfaf, y llwybr cliriaf at gyflawni a'r potensial mwyaf ar gyfer effaith. Mae'r dull strwythuredig hwn yn sicrhau bod De-orllewin Cymru yn cynnal piblinell ranbarthol canolbwyntiedig, gydlynol ac y gellir buddsoddi ynddi.

### *Cam 1. Hidlo Prosiectau*

Cyn blaenoriaethu, mae angen cam hidlo cychwynnol i sicrhau bod prosiectau'n bodloni meini prawf sylfaenol o ran strategaeth, cyllid a chyflawnadwyedd. Mae'r broses hon yn helpu i fireinio'r rhestr hir yn set ganolbwyntiedig o gyfleoedd sydd naill ai'n barod ar gyfer buddsoddi neu sydd â llwybr credadwy tuag at barodrwydd. Drwy gymhwyso'r hidlydd strwythuredig hwn ymlaen llaw, gall y rhanbarth ganolbwyntio ymdrechion ar y cynigion mwyaf hyfyw tra'n cynnal piblinell ddeinamig sy'n parhau i esblygu wrth i gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg.

***Tabl 1: Trosolwg ar gyfer Hidlo Prosiectau***

| Dimensiwn Asesu | Pwrpas | Canlyniadau Nodweddiadol |
|---|---|---|
| Ffynhonnell y Cyllid a Geisir | Penderfynu a oes angen cyllid cyhoeddus, preifat neu gymysg. | Cyfeirio prosiectau at fecanweithiau cyllido priodol. |
| Canlyniadau ac Effaith y Prosiect | Profi aliniad â blaenoriaethau'r Cynllun Cyflawni ac amcanion buddsoddi rhanbarthol. | Nodi prosiectau sydd â'r gwerth strategol cryfaf. |
| Parodrwydd a Chyflawnadwyedd | Asesu aeddfedrwydd, rhwystrau, statws cynllunio a'r anghenion galluogi megis seilwaith a sgiliau. | Amlygu lle mae angen cefnogaeth neu ddilyniant. |
| Cryfder Cynnig i Fuddsoddwyr | Ystyried eglurder y cynnig, atyniad masnachol a'r gallu i raddio. | Nodi prosiectau â photensial uchel ar gyfer eu hyrwyddo. |

Yn dibynnu ar ganlyniadau'r broses hidlo, gall prosiectau ddilyn sawl llwybr. Gall prosiectau:

- Symud yn syth i biblinell gyflawni'r Cynllun Cyflawni ar gyfer gweithredu rhanbarthol cydlynol.
- Cael eu harchwilio ymhellach gyda phartneriaid rhanbarthol perthnasol, megis y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, lle mae'r prosiect yn cyd-fynd yn agosach â chanlyniadau sgiliau, ymchwil a datblygu neu addysg.
- Fod yn fwy addas ar gyfer eu huwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i geisio buddsoddiad pellach, aliniad polisi neu gefnogaeth strategol.
- Yn ogystal, gall prosiectau sy'n cyd-fynd ag amcanion y Gronfa Twf Lleol newydd (neu raglenni olyniaeth yn y dyfodol) gael eu lleoli ar gyfer eu hystyried o fewn y fframweithiau cyllido hynny.

### *Cam 2: Gofynion Cyllido*

Mae’r cam nesaf yn cynnwys asesu’r llwybr cyllido mwyaf priodol ar gyfer pob prosiect. Mae hyn yn cynnwys paru cynigion â ffrydiau cyllido presennol a sicrhau bod prosiectau’n cyd-fynd â meini prawf, blaenoriaethau ac amserlenni opsiynau cyllid cyhoeddus, preifat neu gymysg presennol.

Fodd bynnag, mae’r broses hefyd yn cydnabod bod y dirwedd gyllido yn esblygu. Gall rhai prosiectau fod mewn sefyllfa well i gyd-fynd â rhaglenni cyllido newydd neu sy’n dod i’r amlwg gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, yn enwedig lle mae blaenoriaethau polisi cenedlaethol yn newid neu lle mae cerbydau buddsoddi newydd yn cael eu datblygu. Yn yr achosion hyn, mae’r asesiad yn helpu i nodi cyfleoedd i osod De-orllewin Cymru fel arweinydd cynnar, gan lunio cynigion mewn ffordd sy’n cryfhau eu cymhwysedd ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol.

Drwy ystyried yr amgylchedd cyllido presennol a’r potensial ar gyfer ffrydiau buddsoddi sydd ar y gorwel, mae’r cam hwn yn sicrhau bod y rhanbarth yn parhau’n hyblyg, yn edrych ymlaen ac yn barod i fanteisio ar gyfleoedd cyllido newydd wrth iddynt godi.

### *Stage 3: Blaenoriaethu*

I drosi cyfleoedd buddsoddi’r rhanbarth yn ymyriadau y gellir eu cyflawni, mae piblinell brosiectau fyw wedi’i sefydlu (gweler Adran 5). Mae’r biblinell hon yn cofnodi pob prosiect a nodwyd (drwy biblinellau presennol a’r alwad am brosiectau), ei gyfraniad arfaethedig at ddatblygiad economaidd a’i lwybr disgwyliedig tuag at barodrwydd. Y bwriad yw ei chadw dan adolygiad parhaus gan bartneriaid rhanbarthol, gan ganiatáu i syniadau masnachol newydd a chyfleoedd sy’n dod i’r amlwg gael eu hychwanegu, a galluogi diweddariadau i’r prosiect wrth i gynlluniau ddatblygu.

Mae’r biblinell yn cynnwys prosiectau ar wahanol gamau aeddfedrwydd, o gysyniadau cynnar sydd angen cymorth datblygu i gynigion uwch sy’n agos at gyflawni. Mae’r amrywiaeth hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd proses flaenoriaethu systematig a thryloyw, gan sicrhau bod prosiectau’n cael eu hasesu’n gyson a’u cyfeirio at y llwybr datblygu mwyaf priodol.

***Meini Prawf Blaenoriaethu***

Nododd y broses o ddatblygu’r strategaeth dros £6 biliwn o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt ar draws De-orllewin Cymru. Mae’r prosiectau hyn yn cwmpasu seilwaith hanfodol, datblygiad a arweinir gan arloesedd, cynlluniau adfywio mawr a rhaglenni sy’n canolbwyntio ar gydnerthwch. Mae’r biblinell yn adlewyrchu ehangder a dyfnder cynnig y rhanbarth, gan arddangos prosiectau sydd â’r potensial i ddarparu enillion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol yn y tymor byr, canolig a hirdymor.

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn dryloyw, yn gyson ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol, mae’r meini prawf yn darparu dull strwythuredig ar gyfer cymharu prosiectau sy’n amrywio’n fawr o ran graddfa, diben ac aeddfedrwydd, gan helpu partneriaid i

benderfynu pa gyfleoedd ddylai symud ymlaen gyntaf a pha lefel o gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnynt.

***Tabl 2: Meini Prawf Blaenoriaethu***

| Meini Prawf | Cyfiawnhad |
|---|---|
| Aliniad Strategol | Cydweddiad â blaenoriaethau'r DU, Cymru a'r rhanbarth, gan gynnwys amcanion y CJC. |
| Angen a Galw | Tystiolaeth glir o alw'r farchnad, anghenion rhanddeiliaid neu fylchau mewn gwasanaethau. |
| Cyflawnadwyedd a Pharodrwydd | Llwybr realistig at gyflawni gan gynnwys cynllunio, caniatâd, partneriaethau a seilwaith galluogi megis trafnidiaeth, cysylltiad grid a chyfleustodau eraill. |
| Effaith Economaidd | Potensial i greu swyddi a phrentisiaethau, tyfu gwerth ychwanegol gros, cynyddu cynhyrchiant a chryfhau cadwyni cyflenwi. |
| Hyfywedd Ariannol | Costau credadwy, cyllid wedi'i sicrhau a bwlch cyllido y gellir ei reoli. |
| Gwerth Cymdeithasol a Chynhwysiant | Cyfraniad at gyfleoedd sgiliau a phrentisiaethau, gwaith teg, cydraddoldeb a lles cymunedol. |
| Cynaliadwyedd Amgylcheddol | Aliniad â nodau sero net, bioamrywiaeth, cydnerthwch ac economi gylchol. |
| Risg a Lliniaru | Dealltwriaeth glir o risgiau a strategaethau lliniaru credadwy. |
| Etifeddiaeth Hirdymor | Buddion cymdeithasol ac economaidd parhaol a photensial trawsnewidiol hirdymor drwy allu'r prosiect i wella atyniad cyffredinol y rhanbarth i fuddsoddiad pellach. |

Drwy gymhwyso'r meini prawf gyda'i gilydd, gall penderfynwyr

- Nodi prosiectau â photensial uchel sy'n barod ar gyfer cyflawni ac sy'n addas ar gyfer eu hyrwyddo i fuddsoddwyr.
- Amlygu prosiectau sydd angen cymorth datblygu, megis gwaith dichonoldeb, partneriaethau neu aliniad cynllunio.
- Cyfeirio cynigion at y llwybr cyllido mwyaf priodol, yn seiliedig ar eu nodweddion, eu parodrwydd a'r effaith ddisgwyliedig.
- Cynnal portffolio cytbwys, gan sicrhau bod canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu datblygu ar y cyd.

- Nodi pa brosiectau sydd â'r potensial mwyaf i ddarparu budd trawsnewidiol hirdymor i'r rhanbarth.

Er bod y meini prawf blaenoriaethu yn darparu fframwaith cyson ar gyfer asesu, bwriedir eu cymhwyso'n hyblyg yn hytrach na'n fecanyddol. Bydd prosiectau'n cael eu hystyried yng nghyd-destun eu cam aeddfedrwydd, eu harwyddocâd strategol a'u potensial i ddatgloi gwerth rhanbarthol ehangach dros amser. Mae hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd cam cynnar neu drawsnewidiol yn cael eu hanfanteisio dim ond oherwydd eu bod angen cymorth galluogi neu gyfnodau datblygu hirach.

Felly, bydd blaenoriaethu yn parhau'n ymatebol i flaenoriaethau polisi sy'n dod i'r amlwg, cyfleoedd cyllido a gallu cyflawni rhanbarthol, gan ganiatáu i'r biblinell esblygu tra'n cynnal tryloywder ac aliniad â chenadaethau hirdymor y rhanbarth.

### *Cam 4. Llwybrau Gwneud Penderfyniadau*

Bydd prosiectau sy'n symud drwy'r fframwaith blaenoriaethu yn y pen draw yn mynd drwy'r prosesau cymeradwyo a llywodraethu ffurfiol i sicrhau eu bod yn dangos cydweddiad strategol, gwerth am arian a chyflawnadwyedd. Wrth i brosiectau symud o gysyniad cynnar i gamau mwy datblygedig, disgwylir iddynt gyflwyno tystiolaeth gymesur o gostau, canlyniadau a gofynion cyllido. Mae'r dull cam wrth gam hwn yn sicrhau mai dim ond cynigion sydd wedi'u datblygu'n dda ac yn gadarn sy'n symud ymlaen i fuddsoddiad, gan helpu i ddiogelu cyllid cyhoeddus a chynnal hyder ymhlith partneriaid a buddsoddwyr.

Bydd y CJC yn gweithredu llwybrau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol cyfansoddol a phartneriaid rhanbarthol. Bydd y trefniadau hyn yn diffinio cyfrifoldebau ar gyfer cymeradwyo prosiectau, goruchwyliaeth ariannol a chydymffurfiaeth â'r Fframwaith Sicrwydd cymeradwy. Yn dibynnu ar raddfa a chymhlethdod, gall prosiectau fod angen cymeradwyaeth ar bwyntiau allweddol megis Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn, tra gall cynlluniau llai symud ymlaen drwy brosesau ysgafnach. Bydd adrodd rheolaidd a chyfathrebu agored yn sicrhau aliniad ar draws partneriaid, yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol ac yn cynnal rhaglen fuddsoddi ranbarthol gydlynol.

# 6 Cronfa Buddsoddi Ranbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru

Nid yw'r gronfa buddsoddi arfaethedig gwerth £1.5 biliwn ar gyfer De-orllewin Cymru wedi'i sicrhau ar hyn o bryd. Mae'n cynrychioli graddfa'r cyfalaf hirdymor y bydd y rhanbarth yn ceisio ei ysgogi, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sefydlu mecanwaith cyllido datganoledig priodol. Mae'r ffigur yn adlewyrchu uchelgais a graddfa'r biblinell ranbarthol yn hytrach na dyraniad wedi'i gadarnhau.

Mae gan Dde-orllewin Cymru biblinell gref ac amrywiol o brosiectau a chynigion sy'n ymestyn ar draws adfywio, ynni glân, arloesedd, sgiliau a menter. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfleoedd hyn yn cael eu cyfyngu gan fylchau cyfalaf datblygu, cyllid darniog, a mecanweithiau cyfyngedig i gefnogi cyflawni trawsranbarthol.

Mae cronfa buddsoddi ddatganoledig ar gyfer De-orllewin Cymru yn cynrychioli mecanwaith hanfodol i symud o ymyriadau darniog, tymor byr tuag at blatfform buddsoddi sefydlog sy'n cael ei arwain gan genhadaeth ac sy'n gallu datgloi twf y rhanbarth dros y degawd nesaf. Drwy gyfuno cyfalaf cyhoeddus â buddsoddiad sefydliadol, preifat ac effaith, byddai'r gronfa'n rhoi'r offer i Dde-orllewin Cymru gyflawni adfywio, cyflymu'r trawsnewid ynni glân, ac adeiladu economi ranbarthol fwy cynhyrchiol, gynhwysol a chydnerth.

Mae'r strategaeth wedi nodi angen am gronfa gyda dau brif rôl:

1. **Galluogi cyfalaf ar gyfer parodrwydd buddsoddi:** Darparu cyfalaf wedi'i dargedu i:
   a. Bontio bylchau hyfywedd a datblygu yn ystod y cam cynnar
   b. Lleihau risg prosiectau cymhleth neu rai o'u math cyntaf
   c. Cefnogi adfer tir, galluogi seilwaith a datblygu achosion busnes; a
   d. Darparu cyllid amyneddgar a chymysg i ddenu buddsoddiad preifat, sefydliadol a chymdeithasol.
2. **Rhaglenni trawsranbarthol:** Cefnogi mentrau sy'n darparu effaith strategol ar raddfa ranbarthol, gan gynnwys:
   a. Sgiliau a datblygu'r gweithlu sy'n cyd-fynd ag ynni glân, adeiladu, lletygarwch, gweithgynhyrchu, a sgiliau digidol y dyfodol.
   b. Cefnogaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig i ddatgarboneiddio, gwella cynhyrchiant, a defnyddio technolegau digidol a deallusrwydd artiffisial yn effeithiol, a chael mynediad at gaffael cyhoeddus.
   c. Datblygu menter a sectorau, gan gryfhau clystyrau a chadwyni cyflenwi ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

## 6.1 Tystioliaeth ac angen

Mae ymgyngoreion a phartneriaid cyflawni wedi nodi'n gyson fod bylchau clir yn y ddarpariaeth gyllido bresennol, gan gynnwys:

- Absenoldeb mecanwaith penodol i fynd i'r afael â bwlch datblygu cyfalaf y rhanbarth.
- Diffyg cyllid sefydlog a chydlynol ar gyfer rhaglenni sgiliau a chymorth busnes a ddarperir ar raddfa ranbarthol.
- Argaeledd cyfyngedig o gyllid amyneddgar â llog isel ar gyfer busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan fodelau bancio cenedlaethol neu fasnachol.
- Absenoldeb cyfrwng canolog, credadwy y gall buddsoddwyr preifat a sefydliadol, gan gynnwys cronfeydd pensiwn, ei ddefnyddio i fuddsoddi yn economi De-orllewin Cymru;
- Angen cynhyrchion cyllido sy'n adlewyrchu nodweddion rhanbarthol, cymysgedd sectorau a chanlyniadau datblygu hirdymor, yn hytrach nag enillion tymor byr yn unig.

Heb ymyrraeth, bydd y bylchau hyn yn parhau i gyfyngu ar gyflawni, lleihau buddsoddiad preifat, ac yn rhwystro'r rhanbarth rhag cyflawni ei genadaethau datblygu

## 6.2 Dull buddsoddi ac ariannu

Bydd y gronfa fuddsoddi arfaethedig ar gyfer De-orllewin Cymru yn defnyddio cyfalaf mewn ffordd dargedig, hyblyg a chymesur, gan fynd i'r afael â methiannau'r farchnad a nodwyd wrth ategu darpariaeth gyllid cyhoeddus a phreifat presennol. Gan adlewyrchu graddfa a chwmpas Bargen Ddinesig Bae Abertawe, cynigir cronfa datblygu ranbarthol De-orllewin Cymru o hyd at £1.5 biliwn dros 10 mlynedd.[5]

Mae'r gronfa buddsoddi arfaethedig gwerth £1.5 biliwn ar gyfer De-orllewin Cymru yn adlewyrchu maint y cyfle a maint y cyfyngiadau sy'n wynebu piblinell brosiectau'r rhanbarth ar hyn o bryd. Mae'r ffigur wedi'i seilio ar dair ystyriaeth:

- Dysgu o fodelau cyllido datganoledig a rhanbarthol blaenorol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe, rowndiau cyllido Lefelu i Fyny, a chyfryngau buddsoddi rhanbarthol cymharol yn y DU.
- Sganio'r gorwel o biblinell brosiectau'r rhanbarth yn y dyfodol, sy'n dangos cyfaint sylweddol o brosiectau sydd wedi'u halinio'n strategol ac sydd angen cyfalaf cam cynnar, cyllid cymysg neu fuddsoddiad galluogi cyn y gallant gyrraedd parodrwydd cyflawni llawn.
- Tystiolaeth o fylchau datblygu a hyfywedd parhaus, yn enwedig ym meysydd adfywio, seilwaith ynni glân, adfer tir, twf busnesau bach a chanolig, a menter a arweinir gan arloesedd..

[5] Er bod £1.5 biliwn yn cynrychioli graddfa sylweddol ac uchelgeisiol o fuddsoddiad, caiff ei gyflwyno fel uchelgais hirdymor ddangosol yn hytrach nag ymrwymiad cyllido wedi'i sicrhau. Mae'r ffigur yn adlewyrchu maint y cyfle a'r biblinell ranbarthol, a byddai disgwyl iddo gael ei adeiladu'n raddol dros amser drwy gyfuniad o gyfalaf angor gan y llywodraeth, enillion wedi'u hailgylchu, a chyd-fuddsoddi gan bartneriaid cyllid preifat, sefydliadol ac effaith, yn hytrach nag fel dyraniad un tro ymlaen llaw.

Mae dadansoddiad y biblinell yn dangos, er bod gan Dde-orllewin Cymru sylfaen gref o gyfleoedd y gellir buddsoddi ynddynt, fod cyfran ohonynt yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg cyllid datblygu strwythuredig a chyfalaf amyneddgar. Mae llawer o gynigion yn eistedd yn y "canol coll": yn rhy ddatblygedig ar gyfer cymorth grant yn unig, ond heb fod eto wedi'u lleihau o ran risg neu wedi'u pecynnu'n ddigonol i ddenu buddsoddiad sefydliadol.

Byddai cronfa o £1.5 biliwn a gaiff ei defnyddio dros gyfnod o ddeg mlynedd felly'n darparu'r raddfa sydd ei hangen i:

- Datgloi cynlluniau sydd wedi arafu a chyflymu'r broses o gyflawni;
- Cefnogi prosiectau o'u math cyntaf a rhai sy'n siapio'r rhanbarth;
- Denu buddsoddiad preifat drwy gyllid cymysg a chyfalaf amyneddgar; a
- Darparu rhaglenni rhanbarthol cynaliadwy y tu hwnt i gylchoedd cyllido tymor byr.

### *6.2.1 Egwyddorion buddsoddi*

Cynigir y bydd y gronfa'n cael ei harwain gan yr egwyddorion canlynol:

- **Ychwanegol:** Dim ond lle mae tystiolaeth glir na fyddai canlyniadau'n cael eu cyflawni ar yr un raddfa, cyflymder nac ansawdd heb ymyrraeth y bydd buddsoddiad yn cael ei wneud.
- **Aliniad sy'n seiliedig ar le:** Bydd penderfyniadau buddsoddi yn cael eu halinio â blaenoriaethau economaidd, sgiliau a datgarboneiddio rhanbarthol.
- **Denu cyllid preifat**: Bydd cyfalaf cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n strategol i leihau risg a gwella gweledeedd, gan ddatgloi buddsoddiad dilynol gan y sector preifat a sefydliadol.
- **Trawsnewid tuag at aeddfedrwydd y farchnad:** Bydd buddsoddiad yn cefnogi lleoedd a phrosiectau i symud, lle bo'n briodol, o ddarparu a gefnogir gan grant tuag at fodelau masnachol hyfyw sy'n cael eu harwain gan fuddsoddiad dros amser.
- **Cymesuredd a hyblygrwydd:** Bydd cymorth ariannol yn cael ei deilwra i gam, graddfa a phroffil risg y prosiect.
- **Ailgylchadwy:** Lle bo'n briodol, bydd enillion yn cael eu hailgylchu i gefnogi capasiti buddsoddi hirdymor yn y rhanbarth.

Dros amser, bydd y dull hwn yn galluogi cyllid cyhoeddus i ganolbwyntio'n gynyddol ar feysydd a phrosiectau lle nad yw buddsoddiad a arweinir gan y farchnad yn unig yn ddigonol, wrth gefnogi lleoliadau eraill i ddod yn fwy hunangynhaliol.

### *6.2.2 Offerynnau ariannol*

Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu y dylai'r gronfa ddefnyddio amrywiaeth o offer cyllid datblygu, gan gynnwys:

- Grant cyfalaf i fynd i'r afael â bylchau hyfywedd, costau annormal a methiannau'r farchnad;

- Cyllid datblygu ar gyfer gwaith dichonoldeb, cwmpasu, datblygu achosion busnes neu weithgarwch cyn adeiladu.
- Benthyciadau amyneddgar, cost isel lle nad yw benthyca masnachol ar gael neu'n briodol;
- Cyllid cymysg a chyd-fuddsoddi, gan gyfuno cyfalaf cyhoeddus a phreifat.
- Cyllid adferadwy neu ailgylchadwy, lle bo'n briodol i gynnal cyllid dros amser.
- Caffael a chomisiynu partneriaid i ddarparu gwasanaethau lle bo'n fwyaf addas a phriodol.

Lle bo'n briodol, bydd gwasanaethau a rhaglenni'n cael eu darparu drwy gaffael neu gomisiynu partneriaid arbenigol, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cyllid cymdeithasol sydd â phrofiad perthnasol o gyflawni

### *6.2.3 Perthnasoedd â darparwyr cyllid presennol*

Cydnabyddir na ddylai'r gronfa geisio disodli na chystadlu â benthycwyr masnachol na sefydliadau cyllid datblygu cenedlaethol. Yn hytrach, bydd yn:

- Mynd i'r afael â'r bylchau rhwng cyllid grant a chyllid masnachol;
- Gwella proffil risg prosiectau a busnesau;
- Galluogi mynediad at fenthyca a buddsoddi prif ffrwd mewn camau diweddarach; a
- Chefnogi trosglwyddiad i ffwrdd o ddibyniaeth hirdymor ar grantiau, drwy alluogi prosiectau a lleoedd i symud tuag at fodelau cyflawni masnachol hyfyw sy'n cael eu harwain gan fuddsoddiad dros amser.

**Crynodeb o'r Gronfa Datblygu Ranbarthol arfaethedig ar gyfer De-orllewin Cymru**

**Pwrpas**: Cronfa fuddsoddi ddatganoledig, galluogi i ddatgloi cyflawni prosiectau blaenoriaeth drwy fynd i'r afael â bylchau cyfalaf, lleihau risg buddsoddi a denu cyllid preifat a sefydliadol.

**Yr angen:**

- Bwlch datblygu cyfalaf,
- Cyllid tymor byr darniog ar gyfer sgiliau a chymorth busnes,
- Cyllid amyneddgar cyfyngedig,
- Dim cyfrwng rhanbarthol unigol ar gyfer buddsoddiad preifat/sefydliadol, ac,
- Addasu i anghenion ac amcanion rhanbarthol.

**Beth y bydd yn ei wneud:** Dosbarthu hyd at £1.5 biliwn dros 10 mlynedd er mwyn:

- **Galluogi prosiectau i fod yn barod ar gyfer buddsoddi:** bylchau hyfywedd, lleihau risg, datblygu dichonoldeb/achos busnes, opsiynau cyllid amyneddgar/cymysg.
- **Cyflawni rhaglenni trawsranbarthol**: sgiliau a datblygu'r gweithlu, cynhyrchu busnesau bach a chanolig, mabwysiadu technoleg, datgarboneiddio, datblygu clystyrau

**Egwyddorion buddsoddi:** Ychwanegol, seiliedig ar le, denu cyllid preifat, cymesur, ac ailgylchadwy lle bo'n briodol.

# 7 Llywodraethu a Rheoli Rhaglen

Mae'r adran hon yn sicrhau bod gwneud penderfyniadau rhanbarthol yn gydlynol, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau a rennir. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn eistedd o fewn y strwythur hwn, gan ddarparu'r cyfrwng cyflawni ar gyfer uchelgeisiau economaidd y rhanbarth a chynnig dull cydlynol o sicrhau a defnyddio buddsoddiad.

## 7.1 Fframwaith Llywodraethu

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth a fydd yn sail i gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi, gan sicrhau atebolrwydd clir, gwneud penderfyniadau effeithiol ac aliniad cryf rhwng blaenoriaethau strategol a gweithgarwch cyflawni ar draws De-orllewin Cymru.

- **Arweinyddiaeth:** Mae'r CJC yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi ac yn gyfrifol am osod blaenoriaethau, cymeradwyo penderfyniadau buddsoddi a phennu cyfeiriad cyffredinol y rhaglen. Mae hyn yn sicrhau dull cyson, atebol ac ar draws y rhanbarth o fuddsoddi. Fel un o'r pedwar CJC statudol a sefydlwyd yng Nghymru, mae'n darparu'r mecanwaith ffurfiol drwy ba un y mae'r awdurdodau lleol cyfansoddol yn arfer swyddogaethau ar y cyd sy'n ymwneud â chynllunio strategol, trafnidiaeth ranbarthol a lles economaidd.

- **Goruchwyliaeth:** Caiff goruchwyliaeth y strategaeth ei chefnogi gan y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol, gyda chefnogaeth y Grŵp Swyddogion Datblygu Economaidd. Bydd hyn yn helpu i fonitro cynnydd, cynnal y biblinell brosiectau fyw a chydlynu gweithgarwch ar draws sefydliadau partner.

- **Gweithredol:** Bydd y Grŵp Swyddogion Datblygu Economaidd yn gweithredu fel yr arweinydd gweithredol, yn gyfrifol am gynnal y Strategaeth, adolygu cynigion prosiectau ac argymell camau gweithredu. Mae'r CJC wedi sefydlu mecanweithiau i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â busnesau a phartneriaid trydydd sector

- **Gweithio integredig:** Mae'r fframwaith llywodraethu yn hyrwyddo gweithio cysylltiedig ar draws sefydliadau partner a llif gwaith, gan gynnwys Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru a chyrff/fframweithiau iechyd, gan sicrhau aliniad â gweithgarwch datblygu economaidd ehangach, agendâu cysylltiedig, a rhaglenni cyllido eraill fel bod penderfyniadau buddsoddi yn gydlynol, yn ategol ac yn atgyfnerthu ei gilydd yn hytrach na bod yn dameidiog.

- **Safbwynt allanol:** Bydd y Grŵp Cynghori'r Sector Preifat yn cael ei ymgynghori ar ddatblygu'r biblinell a chynigion mawr i sicrhau bod y Strategaeth yn adlewyrchu realiti a chyfleoedd masnachol. Bydd ymgysylltiad strwythuredig drwy'r Grŵp Cynghori'r Sector Preifat (a byrddau cynghori eraill neu randdeiliaid allanol) yn darparu mewnwelediad annibynnol ar gyflawni'r strategaeth. Bydd hyn yn helpu i brofi rhagdybiaethau, herio blaenoriaethau lle bo angen a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau.

O ystyried graddfa a natur hirdymor y rhaglen fuddsoddi, bydd capasiti cyflawni digonol yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys arbenigedd o fewn awdurdodau partner unigol, ochr yn ochr â chapasiti rhanbarthol ar y cyd i ddatblygu prosiectau, sicrhau cyllid a rheoli'r broses gyflawni ar gyflymder.

### *7.1.1 Aliniad Sgiliau a Llywodraethu'r Gweithlu*

Bydd cyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn cael ei gefnogi gan aliniad agos â chynllunio sgiliau rhanbarthol. Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i alinio galw cyflogwyr, gwybodaeth am y farchnad lafur a darpariaeth addysg ar draws De-orllewin Cymru, yn enwedig mewn sectorau blaenoriaeth megis ynni glân, gweithgynhyrchu, digidol ac iechyd. Mae integreiddio'r ddealltwriaeth sgiliau hon i lywodraethu rhanbarthol yn helpu i gryfhau parodrwydd buddsoddi, hyder mewn cyflawni a chydnerthwch hirdymor y gweithlu.

### *7.1.2 Rheoli a Diweddaru'r Biblinell*

Mae piblinell brosiectau fyw yn sail i'r Strategaeth a rhaid iddi aros yn hyblyg i ymateb i gyfleoedd newydd. Bydd y biblinell yn cael ei chynnal gan y Grŵp Swyddogion Datblygu Economaidd rhanbarthol (dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol), a fydd yn diweddaru gwybodaeth prosiectau, monitro cynnydd a chydlynu ceisiadau cyllido, cyngor ac arweiniad.

Mae elfennau allweddol y dull rheoli'r biblinell yn cynnwys:

- Galwadau rheolaidd (e.e. bob chwe mis neu amserlen arall) am brosiectau i sicrhau llif cyson o syniadau newydd, gan gynnwys cynigion gan y sector preifat a chynlluniau a arweinir gan arloesedd.
- Defnyddio offer digidol effeithlon, megis ffurflenni cyflwyno ar-lein, i symleiddio mewnbynnau a gwella ansawdd data.
- Cefnogaeth barhaus gan Grŵp Cynghori'r Sector Preifat, gan sicrhau bod cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn cyd-fynd â thueddiadau'r farchnad a disgwyliadau buddsoddwyr.

Mae'r broses strwythuredig hon yn sicrhau bod De-orllewin Cymru yn cynnal portffolio hyblyg, y gellir buddsoddi ynddo ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gallu ymateb i amodau economaidd sy'n esblygu.

### *7.1.3 Gwneud Penderfyniadau*

Mae penderfyniadau buddsoddi ffurfiol yn gorwedd gyda'r CJC, yn unol â'i gyfrifoldebau statudol. Bydd prosiectau'n symud drwy brosesau arfarnu cymesur yn seiliedig ar fethodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru, gan sicrhau asesiad cadarn o gydweddiad strategol, gwerth am arian, cyflawnadwyedd a risg.

Mae gweithrediad amserol a rhagweladwy'r system gynllunio a chaniatáu, gan gynnwys trwyddedu amgylcheddol, yn hanfodol i sicrhau buddsoddiad preifat. I fuddsoddwyr, mae

sicrwydd ynghylch amserlenni gwneud penderfyniadau'r un mor bwysig â mynediad at safleoedd, seilwaith a chapasiti grid, gan y gall oedi neu ansicrwydd effeithio'n sylweddol ar hyfywedd prosiectau a phenderfyniadau buddsoddi.

I gefnogi hyn, bydd gwneud penderfyniadau yn cael ei ategu gan system gynllunio ragweithiol sy'n galluogi nodi cyfleoedd, cyfyngiadau a dibyniaethau ar draws y biblinell brosiectau yn gynnar. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i lunio, trefnu ac alinio gweithgarwch buddsoddi ymlaen llaw, gan wella parodrwydd buddsoddi, lleihau risg cyflawni a chefnogi penderfyniadau amserol, gwybodus sy'n ymateb i flaenoriaethau strategol ac amodau'r farchnad.

Bydd penderfyniadau buddsoddi yn cael eu llywio gan effaith strategol, cyflawnadwyedd a gwerth hirdymor, yn hytrach na rhagdybiaeth o ddosbarthiad daearyddol cyfartal. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod buddsoddiad yn cefnogi prosiectau sy'n datgloi'r budd cyfunol mwyaf i economi'r rhanbarth, gan gydnabod y bydd effeithiau'n cael eu teimlo ar draws gwahanol leoedd mewn ffyrdd gwahanol ac ar wahanol amserlenni.

Bydd gwneud penderfyniadau hefyd yn cael ei alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod pob buddsoddiad yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy.

### *7.1.4 Dull Hirdymor*

Er bod y Strategaeth yn nodi rhaglen bum mlynedd, mae buddsoddi rhanbarthol effeithiol yn gofyn am safbwynt hirdymor. Bydd cyfleoedd newydd, ffrydiau cyllido a thechnolegau yn dod i'r amlwg, ac mae'r Strategaeth wedi'i chynllunio i fod yn addasadwy, gan ganiatáu i flaenoriaethau a chamau gweithredu esblygu dros amser tra'n cynnal cyfeiriad clir ac uchelgais a rennir.

## 7.2 Mesur a Monitro ein Llwyddiant

O ystyried bod prosiectau o fewn y biblinell ar wahanol gamau datblygu, mae dull cadarn o fesur cynnydd yn hanfodol. Bydd monitro'n canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y rhaglen, wedi'i alinio â chenadaethau'r Cynllun Cyflawni, yn ogystal â dangosyddion buddsoddi penodol i brosiectau sy'n dangos gwerth ac effaith ymyriadau unigol. Gyda'i gilydd, bydd y metrigau hyn yn galluogi'r rhanbarth i asesu cynnydd, mireinio blaenoriaethau a dangos y dychweliad strategol ar fuddsoddiad.

Bydd set o ddangosyddion perfformiad craidd (o'r Cynllun Cyflawni) yn olrhain cynnydd yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol ehangach, gan sicrhau bod gweithgarwch buddsoddi yn cyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Caiff y rhain eu hategu gan fesurau penodol i fuddsoddiad, gan alluogi'r CJC a phartneriaid i werthuso pa mor effeithiol mae'r Strategaeth yn manteisio ar adnoddau, yn cryfhau'r sylfaen fusnes ac yn cefnogi trawsnewid economaidd hirdymor.

*Tabl 3: Dangosyddion y Cynllun Cyflawni*

| Dangosydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Buddsoddiad preifat | Buddsoddiad preifat ychwanegol a sicrhawyd yn y rhanbarth o ganlyniad i gymorth cyhoeddus drwy'r Cynllun Cyflawni |
| Gwerth ychwanegol gros | Gwerth ychwanegol gros amcangyfrifedig a gynhyrchir o ganlyniad i fuddsoddiad |
| Creu a goroesi busnesau | Busnesau newydd a sefydlwyd o ganlyniad i weithgarwch a gefnogir gan y Cynllun Cyflawni a'u cyfraddau goroesi dros amser |
| Swyddi | Swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd o ganlyniad i fuddsoddiad. Mae'r Cynllun Cyflawni yn pwysleisio ansawdd swyddi (yn unol â'r Contract Economaidd) a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y mesur perfformiad (er enghraifft, cyflogaeth ar neu uwchlaw'r Cyflog Byw Go Iawn ac wedi'i gynnal dros amser) |
| Cynhyrchiant | Cynhyrchiant gwell o ganlyniad i fuddsoddiad (gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithir) |
| Mynediad at gyflogaeth | Pobl yn mynd i mewn i gyflogaeth (neu'n cynyddu oriau gwaith) o ganlyniad i ymyrraeth |
| Arloesedd | Ymchwil a datblygu i gynhyrchion, nwyddau a gwasanaethau newydd o ganlyniad i ymyrraeth<br>Mabwysiadu cynhyrchion neu brosesau 'newydd i'r cwmni' o ganlyniad i ymyrraeth |
| Gostyngiadau carbon | Arbedion CO2 o ganlyniad i fuddsoddiad |
| Newid modd teithio | Cynnydd mewn teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus / defnydd cynyddol o deithio llesol o ganlyniad i fuddsoddiad |
| Gwariant ymwelwyr | Cynnydd mewn gwariant ymwelwyr o ganlyniad i fuddsoddiad |

### *7.2.1 Dangosyddion sy'n Benodol i Fuddsoddiad*

Y tu hwnt i'r dangosyddion eang (uchod), bydd y Strategaeth yn olrhain perfformiad uniongyrchol sy'n ymwneud â symbylu buddsoddiad a chynnydd prosiectau. Mae mesurau a awgrymir yn cynnwys:

- **Buddsoddiad a ysgogwyd**: Cyfanswm y cyfalaf cyhoeddus a phreifat a ddenwyd drwy'r biblinell.

- **Cynnydd prosiectau**: Nifer y prosiectau sy'n symud ymlaen drwy gamau datblygu (e.e. dichonoldeb, Achos Busnes Amlinellol, Achos Busnes Llawn).
- **Cyflymder cyflawni**: Yr amser a gymerir i brosiectau blaenoriaeth gyrraedd cerrig milltir cyflawni.
- **Cydnerthwch y biblinell**: Canran y prosiectau sy'n cael eu cynnal, eu hychwanegu neu eu tynnu yn ystod adolygiadau bob chwe mis.

### *7.2.2 Dull Monitro*

Bydd y CJC, gyda chefnogaeth partneriaid rhanbarthol, yn cynnal cylch monitro perfformiad strwythuredig, gan adrodd ar gynnydd yn rheolaidd ac alinio diweddariadau â'r adolygiad piblinell bob chwe mis. Mae hyn yn sicrhau tryloywder, yn galluogi nodi heriau'n gynnar ac yn caniatáu i bartneriaid addasu cynlluniau cyflawni wrth i gyfleoedd newydd, ffrydiau cyllido neu sbardunau polisi ddod i'r amlwg. Yn y pen draw, mae'r dull hwn yn sicrhau bod y Strategaeth yn parhau'n ddeinamig, yn atebol ac yn canolbwyntio ar greu gwerth hirdymor i Dde-orllewin Cymru.

# 8 Camau nesaf

Bydd cam nesaf Strategaeth Buddsoddi De-orllewin Cymru yn canolbwyntio ar gryfhau cynnig buddsoddi'r rhanbarth, datblygu cyfleoedd blaenoriaeth, a gosod yr amodau sydd eu hangen i gefnogi cyflawni hirdymor. Mae'r camau gweithredu isod yn darparu map ffordd ymarferol ar gyfer symud y Strategaeth ymlaen dros y cyfnod 2026–2031, gan gydnabod y bydd y drefn a'r cyflymder yn parhau i adlewyrchu capasiti partneriaid, argaeledd cyllid a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

**Cryfhau'r Cynnig Buddsoddi**

Bydd gweithgarwch gweithredu cynnar yn cynnwys datblygu pellach o gynnig buddsoddi allanol y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys mireinio'r Prosbectws Buddsoddi a deunyddiau ategol, wedi'u llywio gan ymgysylltu mewn digwyddiadau mawr megis MIPIM a UKREiiF, ac wrth baratoi ar gyfer uwchgynadleddau buddsoddi Cymru yn y dyfodol. Bydd presenoldeb digidol cliriach ar gyfer y cynnig rhanbarthol hefyd yn cael ei ddatblygu i wella hygyrchedd i fuddsoddwyr.

Yn ogystal â hyn, bydd dull cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i gefnogi negeseuon cyson ar draws partneriaid, gan sicrhau bod De-orllewin Cymru yn cyflwyno naratif cydlynol a chryf i'r farchnad.

**Cefnogi Arloesedd ac Aliniad Cyllido**

Bydd y Strategaeth yn parhau i gefnogi ceisiadau cyllido arloesedd ac yn sicrhau aliniad â rhaglenni Cymreig a'r DU sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Gronfa Partneriaethau Arloesedd Lleol. Bydd hyn yn helpu'r rhanbarth i aros yn ymatebol mewn amgylchedd cyllido sy'n newid, wrth gryfhau parodrwydd i sicrhau cyfleoedd buddsoddi cystadleuol yn y dyfodol.

**Adnewyddu a Datblygu'r Biblinell Brosiectau**

Bydd ffocws craidd y cyflawni yn parhau i fod ar ddatblygu'r biblinell brosiectau rhanbarthol fyw. Bydd y gwaith yn cynnwys proses adnewyddu a dosbarthu strwythuredig, gan helpu i ddileu dyblygu, safoni gwybodaeth prosiectau, cadarnhau costau a llinellau amser dangosol, a nodi dibyniaethau allweddol megis cynllunio, capasiti grid, cydosod tir neu ofynion adfer tir.

Bydd y biblinell yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid sector cyhoeddus perthnasol i sicrhau aliniad â rhaglenni a llwybrau cyllido ehangach, tra bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i nodi, hidlo, datblygu a blaenoriaethu prosiectau sydd â'r llwybr mwyaf clir tuag at fuddsoddi a chyflawni. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddatblygu rhaglen safleoedd ac adeiladau hirdymor dan arweiniad awdurdodau lleol, gan ganolbwyntio ar alluogi tir cyflogaeth strategol a gofod gwaith a all ddarparu effaith economaidd barhaus a dychweliadau hirdymor ar fuddsoddiad.

**Symbylu Buddsoddwyr a Phartneriaid Cyflawni**

Bydd ymgysylltu targedig â phartneriaid y sector preifat yn cael ei gynnal i brofi awydd buddsoddwyr, siapio cynigion a chefnogi cyfleoedd cyd-fuddsoddi. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy galendr ymgysylltu blynyddol, gan gynnwys gweithgareddau dilynol i Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru, cynadleddau sector a byrddau crwn buddsoddwyr wedi'u targedu.

**Sicrhau Cronfa Buddsoddi De-orllewin Cymru**

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i archwilio sefydlu Cronfa Buddsoddi ddatganoledig ar gyfer De-orllewin Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu gyda'r Llywodraeth, datblygu fframwaith buddsoddi priodol, nodi opsiynau cyflawni a llywodraethu, a sicrhau cyfalaf angor cychwynnol lle bo'n bosibl. Yn gyfochrog, bydd partneriaethau cyd-fuddsoddi yn cael eu dilyn i ddarparu llwybr i raddio buddsoddiad dros amser. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn creu mecanwaith sefydlog sy'n cael ei arwain gan genhadaeth i ddatgloi'r biblinell ranbarthol, denu cyllid preifat, a chyflymu cyflawni ar draws De-orllewin Cymru.